# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MERCHER, 18 MAWRTH 2026 am 2:00 y. p. | WEDNESDAY, 18 MARCH 2026 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR , SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM | COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY ON ZOOM |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, John Ifan Jones, Jackie Lewis, Llio A. Owen, Alwen Watkin, Sonia Williams ***(Is-Gadeirydd/Vice-Chair***), Arfon Wyn

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Dafydd Rhys Thomas

**LLAFUR CYMRU/ WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Jeff Evans ***(Cadeirydd/Chair)***, R. Llewelyn Jones

**HEB YMUNO/UNAFFILIATED**

Celfyn Furlong

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) / CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

John Tierney (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church); Gwag/Vacant (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales); Kathryn Seeney (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector); Christina Williams (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor- Secondary Schools Sector and ALN)

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw  hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

**R H A G L E N**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2026.

**4 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYDRADDOLDEB 2025** (Tudalennau 9 - 46)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**5 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH3 2025/26** (Tudalennau 47 - 68)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Perfformiad, Digidol a Moderneiddio.

**6 CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI 2026-2056** (Tudalennau 69 - 96)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

**7 BLAEN RAGLEN WAITH 2026/27** (Tudalennau 97 - 104)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithiol ar Zoom ar 18 Chwefror 2026

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Jeff Evans (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Arfon Wyn (Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig)<br><br>Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Aled M. Jones, R. Llewelyn Jones, Keith Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Alwen Watkin.<br><br>Aelod Cyfetholedig: Kathryn Seeney (Rhiant Lywodraethwr - Sector Cynradd)<br><br>Aelodau Portffolio<br><br>Y Cynghorydd Gary Pritchard (Arweinydd y Cyngor), Neville Evans (Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion), Carwyn Jones (Aelod Portffolio Tai a Diogelwch Cymunedol), Dyfed Wyn Jones (Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd), Dafydd Roberts (Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg), Nicola Roberts (Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd). |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (ar gyfer eitem 6)<br>Pennaeth Democratiaeth (DS)<br>Prif Swyddog Eiddo ac Asedau (MH) (ar gyfer eitem 6)<br>Swyddog Pwyllgorau (ATH)<br>Cynorthwyydd Cymorth Democrataidd (Gweddarlledu) (CH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr John Ifan Jones, Jackie Lewis, Sonia Williams, Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer), Alun Roberts (aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo), John Tierney (Yr Eglwys Gatholig), Christina Williams (Rhiant Lywodraethwr Sector Uwchradd ac ADY), Rhys H. Hughes (Dirprwy Brif Weithredwr), Arwel Owen (Pennaeth Gwasanaethau Oedolion), Lynn Ball (Cyfarwyddwr Swyddogaeth - Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Kenneth Hughes, Angharad Hughes (Rheolwr Sgriwtini a Gwasanaethau Pwyllgorau) |

---

Yn absenoldeb y Cynghorydd Sonia Williams, Is-gadeirydd, cafodd y Cynghorydd Arfon Wyn ei ethol i wasanaethu fel Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn o'r pwyllgor yn unig.

Fe wnaeth y Cynghorydd R. Llewelyn Jones nodi, gyda thristwch, marwolaeth y Parchedig Jesse Jackson a gyhoeddwyd ddoe. Talodd y Cynghorydd Jones deyrnged i'r Parchedig Jackson a'i waith diflino dros hawliau sifil, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol. Safodd yr Aelodau a Swyddogion fel arwydd o barch.



DRAFT

## 1 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o fuddiant.

## 2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2026 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

## 3 GOSOD CYLLIDEB 2026/27 - CYNIGION DRAFFT TERFYNOL AR GYFER Y GYLLIDEB REFENIW

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn amlinellu cyd-destun y broses ar gyfer gosod y Gyllideb ar gyfer 2026/27 ac yn amlygu'r prif faterion a chwestiynau Sgriwtini er mwyn llunio ymateb ffurfiol i gynigion drafft terfynol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y gyllideb refeniw. Roedd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151, a oedd yn crynhoi cynigion drafft terfynol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y gyllideb ynghyd â'r rhagolygon tymor canolig, ynghlwm yn Atodiad 1.

Cyflwynodd y Cynghorydd Gary Pritchard, Arweinydd ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd yr adroddiad a nododd bod gofyn i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol adolygu'r cynigion drafft terfynol ar gyfer cyllideb refeniw 2026/27 a darparu ymateb ffurfiol i'r Pwyllgor Gwaith cyn i'r gyllideb fynd i'r Cyngor Llawn ar 5 Mawrth 2026. Cafodd y cynigion drafft cychwynnol ar gyfer y gyllideb eu trafod mewn manylder yn ystod y cyfarfod ar 21 Ionawr yn cynnwys y pwysau ariannol a'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Nid yw'r cynigion terfynol wedi newid h.y. cyllideb o £207.029m, cynnydd arfaethedig o 5.1% yn y Dreth Gyngor a defnyddio £1.685m o arian wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb. Wrth osod y gyllideb arfaethedig mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cydnabod bod angen gwarchod gwasanaethau rheng flaen a chynyddu cyllidebau'r gwasanaethau oedolion a phlant er mwyn darparu ar gyfer cynnydd yn y galw yn ogystal â sicrhau bod ysgolion yn derbyn y cyllid sydd ei angen arnynt i gwrdd â chynnydd mewn costau oherwydd chwyddiant.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 nad oes unrhyw faterion wedi dod i'r amlwg ers cyhoeddi cynnig y gyllideb gychwynnol sy'n golygu bod rhaid addasu'r gyllideb wariant net, sy'n parhau ar £207.029m. Cynghorodd y Pwyllgor ynglŷn â'i ddyletswydd statudol i adrodd ar gadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd cronfeydd wrth gefn y Cyngor. Eglurodd bod cyllideb 2026/27 yn seiliedig ar asesiad o'r costau ac incwm a ragwelir yn ystod y flwyddyn ariannol sydd i ddod a bod rhagdybiaethau'n cael eu defnyddio a risgiau'n cael eu nodi. Mae'r prif risgiau wedi'u nodi yn adran 5 yn yr adroddiad ac ar ôl ystyried yr holl risiau, a'r camau lliniaru, barn y Swyddog Adran 151 yw bod y cyllidebau'n gadarn ac yn gyraeddadwy, ac mae lefel iach balansau cyffredinol a chronfeydd a glustnodwyd presennol y Cyngor yn ddigon i liniaru'r risgiau a nodwyd. O ran y rhagolygon tymor canolig nododd, yn seiliedig ar yr wybodaeth ddiweddaraf, y bydd rhaid gwneud arbedion sylweddol yn 2027/28 a 2028/29 yn ogystal er bod cryn ansicrwydd o hyd ynglŷn â chwyddiant, dyfarniadau cyflog a'r galw am wasanaethau.

Fe wnaeth y Cynghorydd Geraint Bebb, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg, gyfeirio at gasgliadau'r Panel yn dilyn ei gyfarfod ar 12 Chwefror 2026, lle cafodd y cynigion drafft terfynol ar gyfer cyllideb refeniw 2026/27 eu hystyried. Ar ôl ystyried yr holl ddogfennau a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ac ar ôl nodi nad yw'r cynigion drafft terfynol ar gyfer y gyllideb yn wahanol i'r cynigion cychwynnol, penderfynodd y Panel gefnogi'r cynigion drafft terfynol ar gyfer cyllideb refeniw 2026/27 fel y'i cyflwynwyd a'u hargymell i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

Wrth ymateb i gwestiynau'r pwyllgor ynglyn â'r cynigion drafft terfynol ar gyfer cyllideb refeniw 2026/27, rhoddodd y Swyddogion ac Aelodau Portffolio ragor o eglurhad. Eglurwyd:

- Bod y £146,100 a ddyrannwyd ar gyfer archwiliadau diogelwch bwyd yn 2026/27 a'r £64,000 o 2028/29 ymlaen er mwyn cynyddu capasiti fel y gellir mynd i'r afael â'r ôl-groniad gan fod tua 700 o fusnesau nad ydynt yn fusnesau risg uchel yn dal i aros am archwiliad. Mae'r ôl-groniad o ganlyniad i'r cyfyngiadau a gyflwynwyd yn ystod y pandemig a'r gofynion rheoleiddio newydd a gyflwynwyd ar gyfer trwyddedu ac archwilio safleoedd megis salonau tatŵ a harddwch, sydd wedi cael blaenoriaeth. Mae'r tanberfformiad yn y maes hwn hefyd wedi cael eu nodi yn ystod y broses o fonitro'r cerdyn sgorio. Nod y buddsoddiad yw cynyddu capasiti er mwyn cael gwared ar yr ôl groniad, ac yna gwella capasiti er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu cwblhau'r nifer ofynnol o archwiliadau bob blwyddyn.
- Mae'r £364,000 a ddyrannwyd ar gyfer seiberddiogelwch yn adlewyrchu'r risg cynyddol o ymosodiad seiberddiogelwch sydd wedi'i nodi fel risg ar y gofrestr risgiau strategol. Bwriedir defnyddio'r arian i gefnogi'r paratoadau, amddiffyniad a threfniadau parhad busnes pe byddai ymosodiad, a sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r Fframwaith Asesu Seiber. Bydd y swm yma'n cael ei gadw mewn cronfa wrth gefn nes bo'r Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio newydd wedi cael cyfle i adolygu'r sefyllfa a chadarnhau faint o gyllid sydd ei angen, naill ai'r swm cyfan neu rywfaint ohono, a bydd unrhyw arian dros ben yn cael ei ddychwelyd i'r Gronfa Gyffredinol.
- Mae'r gwaith o ddrafftio, ymgynghori a chwblhau'r Cynllun Datblygu Lleol yn mynd i gostio oddeutu £800k. Mae £500k wedi cael ei glustnodi ond mae'r £300k yn ychwanegol heb ei ariannu. Drwy gynnwys £100k yn y gyllideb refeniw hyd at 2028/29, pan mae disgwyl i'r Cynllun gael ei gyhoeddi, gellir cwblhau'r cynllun ac ariannu'r holl gostau. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 eglurhad pellach o'r costau'n gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Lleol.
- Er bod y setliad ariannol terfynol yn well na'r disgwyl, nid yw'n ddigon i gwrdd â'r cynnydd mewn costau a wynebir gan y Cyngor. Ond, heb yr arian ychwanegol byddai'r cynnydd yn y Dreth Gyngor yn uwch. Fel pob awdurdod gwledig arall, mae Ynys Môn dan anfantais gan fod y fformiwla ariannu yn seiliedig ar boblogaeth sy'n golygu bod cynghorau â llai o boblogaeth yn derbyn llai o gyllid er bod y gost o ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn aml iawn yn uwch o lawer. Mae'r cynnydd yn y Dreth Gyngor yn debyg i'r hyn y mae'r cynghorau eraill yn y rhanbarth yn ei gynnig sydd hefyd yn wynebu'r un pwysau.
- Mae lles trigolion Ynys Môn bod amser yn elfen ganolog o drafodaethau'r Pwyllgor Gwaith, yn enwedig yn gysylltiedig â'r gyllideb, a'r nod yw gwarchod y gwasanaethau y mae pobl yn dibynnu arnynt, yn enwedig y bobl fwyaf bregus. Fodd bynnag, gyda chynnydd prin yn yr arian a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru, costau cynyddol a chynnydd yn y galw am wasanaethau, er mwyn gosod cyllideb gytbwys yr unig opsiwn sydd ar gael i'r Cyngor yw lleihau gwasanaethau, cynyddu'r Dreth Gyngor neu ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. I gefnogi trigolion sy'n wynebu trafferthion ariannol, mae'r Cyngor yn parhau i fuddsoddi mewn cefnogaeth a chyngor gan y Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth a Chanolfan J.E. O'Toole. Hefyd, mae Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gael i unigolion sy'n cael trafferth talu'r dreth gyngor.
- O ran y cynnydd yn y galw am ofal cymdeithasol i blant a chost lleoliadau, er bod bwriad da y tu ôl i bolisi Llywodraeth Cymru i symud tuag at fodel nid er elw ar gyfer gofal plant yng Nghymru, mae llai o leoliadau ar gael o ganlyniad ac mae hyn wedi cynyddu'r gost yn ystod y cyfnod pontio. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn pob math o wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar ac mae'n parhau i ehangu ei fodel Cartrefi Clyd. Nod y dull hwn yw darparu amgylchedd cefnogol, sy'n debycach i

gartref teuluol drwy ddarparu cartrefi preswyl bach o fewn y gymuned. Yn ogystal â chynnig profiad mwy personol a mwy o sefydlogrwydd ar gyfer y plentyn, mae'r model yn gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar leoliadau allsirol costus. Fodd bynnag, mae angen darpariaeth arbenigol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, ac felly mae'n bosib y bydd lleoliadau allsirol yn dal i fod yn angenrheidiol.

Rhoddodd yr Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol amlinelliad o'r gost a disgrifiodd y strwythur a threfniadau gweithredol ar gyfer y model Cartrefi Clyd.

- Mae'r risgiau ariannol wedi'u nodi yn adran 5 yn yr adroddiad. Mae'r rhain yn cynnwys ansicrwydd yn gysylltiedig â chwyddiant tâl gan nad yw'r cynnig tâl ar gyfer staff NJC wedi cael ei gytuno eto ar gyfer 2026/27 a chan nad oes penderfyniad ynglyn â'r dyfarniad cyflog i athrawon, chwyddiant prisiau a newidiadau i gyfraddau llog. Mae argaeledd grantiau yn parhau i fod yn risg gan fod grantiau'n darparu £30m o incwm. Mae risgiau pellach yn gysylltiedig â chynhyrchu incwm e.e. ym maes hamdden, cynllunio a pharcio lle gall y cynnydd parhaus mewn costau byw effeithio ar y galw, a'r galw am wasanaethau yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol, anghenion dysgu ychwanegol a digartrefedd. Mae'r risgiau eraill yn cynnwys amrywiadau yn y premiwm ar ail gartrefi ac eiddo gwag a chyfraddau casglu'r Dreth Gyngor yn sgil yr heriau costau byw ehangach. Wrth osod y gyllideb, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau cydbwysedd rhwng y risg o fod yn rhy optimistaidd pan fo'r rhagolygon yn rhy bositif a chostau wedi eu hamcangyfrif yn rhy isel a'r risg o fod yn rhy ofalus pan fo'r rhagolygon yn rhy geidwadol ac o ganlyniad cynyddu'r Dreth Gyngor yn uwch na'r hyn sydd ei angen.

**Ar ôl craffu ar y cynigion drafft terfynol ar gyfer Cyllideb Refeniw 2026/27 ac ar ôl ystyried y materion a godwyd yn ystod y drafodaeth a'r ymatebion a ddarparwyd gan y Swyddogion ac Aelodau Portffolio penderfynwyd cefnogi'r cynigion drafft terfynol ar gyfer Cyllideb Refeniw 2026/27 fel y'i cyflwynwyd a'u hargymell i'r Pwyllgor Gwaith yn cynnwys y cynnydd arfaethedig o 5.1% yn y Dreth Gyngor sy'n golygu y bydd eiddo Band D yn talu £1,792.98, defnyddio £1.685m o gronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb a chadw'r premiwm ar ail gartrefi ac eiddo gwag ar 100%.**

*(Fe wnaeth y Cynghorwyr Jeff Evans, Aled M. Jones ac R. Llewelyn Jones atal eu pleidlais)*

## 4 GOSOD CYLLIDEB 2026/27 - CYNIGION DRAFFT TERFYNOL AR GYFER Y GYLLIDEB GYFALAF

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn amlinellu cyd-destun y broses ar gyfer gosod y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2026/27 ynghyd â'r prif faterion a chwestiynau Sgriwtini ar gyfer gwerthuso cynigion drafft terfynol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y gyllideb gyfalaf. Roedd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, sy'n crynhoi'r cynigion terfynol ar gyfer gwariant cyfalaf yn 2026/27, ynghlwm yn Atodiad 1.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Gary Pritchard, Arweinydd ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd a nododd bod y gyllideb gyfalaf yn parhau i fod yn dynn a bod hynny'n cyfyngu ar allu'r Cyngor i wneud cynnydd gyda phrosiectau newydd. Mae benthyca yn opsiwn, ond mae risg ariannol yn gysylltiedig â hynny a chostau refeniw parhaus.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod y gyllideb gyfalaf yn cael ei llywio gan Strategaeth Gyfalaf 2026-2031, sy'n blaenoriaethu gwarchod a chynnal asedau, manteisio i'r eithaf ar gyllid allanol, cwrdd â chyfrifoldebau

statudol a pharhau i gefnogi'r Rhaglen Cymunedau Dysgu. Er bod y Cyllid Cyfalaf Cyffredinol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2026/27 £155k (3.15%) yn uwch na'r dyraniad ar gyfer 2025/26, nid yw'n gwneud iawn am y gostyngiad yng ngwerth gwirioneddol y cyllid oherwydd effaith chwyddiant. Mae modd i'r Cyngor fenthyca i ariannu gwariant cyfalaf ond mae hynny'n creu costau refeniw gan fod rhaid ad-dalu benthyciadau. Mae'r rheolau Rheoli Trysorlys yn cyfyngu faint o arian y gall cynghorau ei fenthyca'n gyfrifol.

Er bod y Grant Cyfalaf gan Lywodraeth Cymru'n cael ei ddefnyddion bennaf i gynnal asedau, mae'r rhaglen a'r gyllideb gyfalaf hefyd yn cynnwys prosiectau allweddol eraill - gwelliannau i Bier a Phontynau Porthaethwy (£225k); Cam 2 o'r gwaith adnewyddu yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur (£1.65m), a'r gwaith diweddaru yng nghanolfannau ailgylchu Penhesgyn a Gwalchmai (£3.806m) sy'n cael ei ariannu'n bennaf drwy'r cynllun eEPR. Hefyd, mae'r Cyngor wedi derbyn £1.5m o Gronfa Balchder Bro Llywodraeth y DU i ddarparu gwelliannau sy'n cael eu harwain gan gymunedau.

Mae Rhaglen Gyfalaf arfaethedig y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2026/27 (CRT) werth cyfanswm o £31.572m ac mae'n canolbwyntio ar fuddsoddi yn y stoc bresennol er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn parhau i gydymffurfio â SATC (£15.71m); cyfleuster gofal ychwanegol a phreswyl ym Mhorthaethwy (£14.001m); datblygiadau tai newydd (£1.498m ond gydag ychwanegiadau posib yn ystod y flwyddyn); a phrynu cerbydau newydd ar gyfer yr Uned Cynnal a Chadw Tai (£363k). Mae cyllid y CTR wedi cael ei glustnodi sy'n golygu bod rhaid defnyddio adnoddau refeniw a chyfalaf at ddibenion tai yn unig. Pan gaiff ei gyfuno â chyllideb gyfalaf y Gronfa gyffredinol, rhy hyn gyllideb gyfalaf arfaethedig o £54.084m ar gyfer 2026/27.

Fe wnaeth y Cynghorydd Geraint Bebb, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg, gyfeirio at gasgliadau'r Panel yn dilyn ei gyfarfod ar 12 Chwefror 2026, lle cafodd y cynigion drafft terfynol ar gyfer cyllideb gyfalaf 2026/27 eu hystyried. Wrth adolygu'r rhaglen gyfalaf a chyllideb arfaethedig nododd y panel bod gwariant cyfalaf o'r Gronfa Gyffredinol yn rhoi blaenoriaeth i asedau presennol yn cynnwys adeiladau'r Cyngor, ysgolion, cerbydau, seilwaith TG, priffyrdd a Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Ar ôl ystyried yr holl ddogfennau a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, penderfynodd y Panel gefnogi'r cynigion drafft terfynol ar gyfer cyllideb gyfalaf 2026/27 fel y'i cyflwynwyd a'u hargymell i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

Mewn ymateb i gais am eglurhad ynglyn â'r CRT, eglurodd y Cynghorydd Gary Pritchard, Arweinydd sut y caiff incwm rhent ei ddefnyddio a'r modd y caiff rhenti eu sybsideiddio, ac eglurodd er nad yw'r ffigurau manwl ar gael, bod modd eu darparu. Amlygodd mai un o'r prif heriau sy'n wynebu'r CRT yw'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi cap ar faint o rent y gellir ei godi fel bod lefelau'n is na chwyddiant sy'n golygu nad yw incwm rhent, sef prif ffynhonnell ariannu'r CRT, wedi codi ar yr un cyflymder â chostau. O ganlyniad, mae llai o gapasiti i fuddsoddi yn y stoc bresennol, datblygu tai newydd a pharhau i gwrdd â SATC. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod rhenti'n parhau i fod yn fforddiadwy ac yn seiliedig ar fethodoleg Rhenti Byw Joseph Rowntree, mae rhenti'r Cyngor yn parhau i fod yn unol â'r trothwyon fforddiadwyedd.

Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 amlinellu pwrpas y CRT, y modd y caiff ei gyllido a'r math o wariant y mae'n ei gefnogi ac fe wnaeth hefyd egluro'r berthynas gyda chymdeithasau tai fel partneriaid allweddol ar gyfer darparu tai cymdeithasol newydd.

Nododd y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Tai a Diogelwch Cymunedol bod y Cyngor wedi cyfrannu tuag at darged Llywodraeth Cymru i ddarparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol ychwanegol yn ystod tymor y Senedd bresennol drwy gydweithio â

chymdeithasau tai. Er bod y Cyngor wedi ymrwymo i barhau i ddatblygu tai cymdeithasol newydd yn unol â Chynllun Busnes y CRT, bydd y Cynllun yn wynebu pwysau cynyddol oni bai bod y cap ar renti'n cael ei godi, bod ychwaneg o gyllid ar gael neu gyfalaf a bod cynlluniau datgarboneiddio'n cael eu gohirio. Pwysleisiodd bod rhaid i fenthyca o fewn y CRT barhau i fod yn fforddiadwy.

Ar ôl craffu ar y cynigion drafft terfynol ar gyfer Cyllideb Refeniw 2026/27, ac ystyried y materion a godwyd yn ystod y drafodaeth a'r ymatebion a ddarparwyd gan Swyddogion ac Aelodau Portffolio, penderfynwyd cefnogi'r cynigion drafft terfynol ar gyfer Cyllideb Gyfalaf 2026/27 fel y'u cyflwynwyd a'u hargymell i'r Pwyllgor Gwaith.

## 5 ADRODDIAD AR GYNNYDD Y PANEL SGRIWTINI ADNODDAU

Nodwyd bod adborth gan y Panel Sgriwtini Adnoddau yn dilyn ei gyfarfod ar 12 Chwefror 2026 wedi cael ei ddarparu gan Gadeirydd y Panel o dan eitem 3 a 4 uchod.

## 6 CYNLLUN STRATEGOL RHEOLI MÂN-DDALIADAU 2026 - 2031

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, a oedd yn cynnwys y Cynllun Strategol ar gyfer Rheoli'r Ystâd Mân-Ddaliadau, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Gary Pritchard, Arweinydd ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd. Nododd bod y Cynllun Strategol Rheoli Mân-Ddaliadau yn disodli'r polisi blaenorol a gafodd ei fabwysiadu 15 mlynedd yn ôl gyda fframwaith pum mlynedd ar gyfer sicrhau bod dull strategol, cyfannol a chyd-gysylltiedig ar gyfer rheoli'r ystâd mân-ddaliadau yn unol â Chynllun y Cyngor. Eglurodd bod grŵp llywio mân-ddaliadau amlbleidiol wedi cael ei sefydlu a bod y cynllun strategol wedi cael ei lywio gan waith ac allbwn y grŵp hwnnw yn dilyn ei gyfarfodydd.

Wrth graffu ar y Cynllun Strategol Rheoli Mân-Ddaliadau codwyd y pwyntiau a ganlyn -

- Gofynnodd y pwyllgor am eglurder ynglyn â'r trefniadau monitro a llywodraethu arfaethedig a gofynnodd am adroddiad cynnydd blynyddol.
- Sut mae ystâd mân-ddaliadau'r Cyngor yn sicrhau gwerth am arian
- A fyddai'n fanteisiol ymgysylltu'n fwy rheolaidd â thenantiaid, gan gydnabod y dylid rhoi blaenoriaeth i gyflawni'r rhaglen arfaethedig ar gyfer cyflwyno gwelliannau cyn ystyried unrhyw waith ymgysylltu pellach.

Cynghorwyd y pwyllgor y bydd ystyriaeth yn cael ei roi i'r modd y dylid adrodd ar gynnydd yn erbyn y cynllun strategol fel rhan o'r adolygiad ehangach o'r modd y caiff holl gynlluniau strategol y Cyngor eu cyfuno fel rhan o'r fframwaith ehangach ar gyfer adrodd ar berfformiad i sicrhau bod cynnydd yn cael ei fonitro. Pwysleisiwyd mai pwrpas y cynllun strategol mân-ddaliadau yw sicrhau bod yr ystâd yn cael ei rheoli mewn modd cynaliadwy er mwyn sicrhau enillion ariannol, amgylcheddol a chymdeithasol priodol a thrwy hynny ddarparu gwerth am arian. Mae gan yr ystâd rôl economaidd yn ogystal drwy greu cyfleoedd i ffermwyr newydd, cefnogi swyddi lleol a chyfrannu tuag at gynhyrchu bwyd yn lleol. Mae'r grŵp llywio mân-ddaliadau wedi adolygu'r ystâd ac mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ailgyfeirio rhywfaint o'r tanwariant i'r Gwasanaeth Eiddo fel bod mwy o gapasiti ar gael i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol a sicrhau bod yr adeiladau fferm yn addas i'r diben.

**Yn dilyn trafodaeth, ac ar ôl ystyried y materion a godwyd a'r ymatebion a ddarparwyd, penderfynwyd argymell y Cynllun Strategol Rheoli Mân Ddaliadau 2026-2031 i'r Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo.**

**6 BLAEN RAGLEN WAITH 2025/26**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth oedd yn cynnwys y blaen raglen waith ar gyfer 2025/26 i'w hystyried a'i hadolygu gan y pwyllgor.

**Penderfynwyd -**

- **Cytuno'r fersiwn gyfredol o'r Blaen Raglen Waith ar gyfer 2025/26.**
- **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r blaen raglen waith.**

**Y Cynghorydd Jeff Evans**
**Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

22/11/2024

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 18 Mawrth 2026 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2025 |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Jeff Evans |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| **Aelod Portffolio** | **Rôl** |
|---|---|
| Cynghorydd Alun Roberts | Aelod portffolio ar gyfer cydraddoldeb |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Dyfan Sion | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Ffreuer Owen | Rheolwr Polisi a'r Gymraeg |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Gwahoddir y Pwyllgor i ddarparu her 'cyfaill beirniadol' er mwyn cael sicrwydd ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb, yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r Cyngor ac yn sicrhau gwerth ychwanegol trwy weithio gyda phartneriaid lle mae hynny'n bosib

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☒Er sicrwydd
☐Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):

Gwahoddir y Pwyllgor i roi sylwadau ar yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2025, cyn iddo gael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y deilydd portffolio ar gyfer ei gyhoeddi.

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Mae'r adroddiad blynyddol yn cynnwys amlinelliad o'n gwaith yn ystod 2025 tuag at gyflawni amcanion ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 (CCS). Mae cysylltiadau cryf rhwng y Cynllun hwn (a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2024) a Chynllun y Cyngor 2023-2028.



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1. Ymdrechion i godi ymwybyddiaeth staff ac aelodau'r Cyngor o faterion yn ymwneud â chydraddoldeb.
2. Cydweithio efo partneriaid i fanteisio ar arbenigedd a defnyddio adnoddau yn ddoeth.
3. Ymdrechion i annog staff i rannu eu data cydraddoldeb efo ni.

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

O dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb erbyn 31 Mawrth yn y flwyddyn yn dilyn y cyfnod adrodd. Prif bwrpas yr adroddiad yw dangos sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau cydraddoldeb. Mae gofynion penodol o ran yr hyn y mae'n rhaid ei adrodd yn flynyddol. Yn unol â'r gofynion hyn, mae'r adroddiad yn cynnwys:

- amlinelliad o'n gwaith yn ystod 2025 i hyrwyddo cydraddoldeb a thuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb ar gyfer 2024 i 2028

- gwybodaeth am gyflogaeth yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

- trosolwg o'r camau rydym wedi'i cymryd yn ystod 2025 i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol a sut rydym wedi defnyddio'r wybodaeth hon i gyflawni tri nod y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol:

  - Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon
  - Hyrwyddo cyfle cyfartal
  - Meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau

**Uchafbwyntiau'r flwyddyn:** Mae uchafbwyntiau 2025 yn cynnwys cynnal ystod o ddigwyddiadau cydraddoldeb, diwylliannol a chrefyddol er mwyn **hyrwyddo dealltwriaeth a pharch** ar draws cymunedau amrywiol.

**Ein hamcanion cydraddoldeb 2024-2028:** Mae cynnydd yn erbyn cynllun gweithredu presennol ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn **gyffredinol gadarnhaol**, gyda'r rhan fwyaf o'r amcanion **wedi ei cyflawni neu ar y trywydd iawn**.

**Ein cymunedau:** Rydym yn parhau i gymryd camau cadarnhaol i nodi a chasglu gwybodaeth gydraddoldeb berthnasol am ein cymunedau. Mae'n sail i'n strategaethau a'n cynlluniau corfforaethol a gwasanaeth. Eleni, cynhyrchwyd llawlyfr a rhestr wirio er mwyn **cefnogi staff** sy'n bwriadu ymgynghori ac ymgysylltu.

**Ein staff:** Roedd ein **bwlch cyflog** cymedrig rhwng y rhywiau ar 31 Mawrth 2025 yn **8.6%,** sy'n **is na ffigwr cyfartalog y DU**. O ran casglu gwybodaeth am ein gweithwyr, er yn mynd i'r cyfeiriad cywir efo mwy o gynnydd eleni na blynyddoedd blaenorol, cydnabyddwn bod angen cyflymu'r cynnydd er mwyn cael darlun llawnach i'n helpu i nodi unrhyw anghydraddoldebau. Fodd bynnag, rhaid hefyd derbyn hawliau unigolion i beidio â datgelu gwybodaeth bersonol os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny.

**Asesu effaith:** Fe gafodd ein **templedi a chanllawiau eu hadolygu a'u diweddaru** eleni. Maent ar gael ar ein mewnrwyd ac mae'r tîm Polisi a'r Gymraeg hefyd wrth law i gynnig cyngor.

Yn ogystal, treuliodd y Tîm Polisi a'r Gymraeg amser sylweddol yn ymgysylltu ag uwch arweinwyr, timau rheoli gwasanaethau a swyddogion allweddol i hyrwyddo dealltwriaeth glir o'r diwygiadau o'r broses asesu effaith a'r gefnogaeth sydd ar gael. Bydd y gwaith hwn yn dwysáu ymhellach wrth i ni baratoi ar gyfer cyflwyno'r ddyletswydd statudol newydd i asesu effaith penderfyniadau strategol ar iechyd o fis Ebrill 2027 ymlaen, gan sicrhau ein bod wedi sefydlu trefniadau cadarn ac effeithiol ar gyfer y dyfodol.

**Edrych ymlaen:** Wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu blynyddol nesaf, byddwn yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed eleni. Bydd hyn yn cynnwys cryfhau'r defnydd o ddata cydraddoldeb, canolbwyntio ar ganlyniadau mesuradwy ac adeiladu ar arbenigedd a'r berthynas gydweithredol â chydweithwyr Cydlyniant Cymunedol rhanbarthol.

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Diben yr adroddiad blynyddol hwn yw edrych yn ôl ar sut mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth am ein trefniadau corfforaethol ar gyfer asesu effaith ein penderfyniadau ar gydraddoldeb.

7.2. Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

Gweler uchod.

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Gweler uchod.

7.4. Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor -

| |
|---|
| Positif / Niwtral / Negyddol a sut.<br><br>Ddim yn berthnasol. |

## 8. Goblygiadau ariannol

| |
|---|
| Ddim yn berthnasol. |

## 9. Atodiadau

| |
|---|
| Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2025 (drafft) |

## 10. Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

| |
|---|
| Ffreuer Owen, Rheolwr Polisi a'r Gymraeg |

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2025

Sut aethom ati i hyrwyddo tegwch i bawb



Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2026

# Adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb 2025

**Trosolwg**
Dyma adroddiad blynyddol Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) ar gyfer 2025. Mae'n cynnwys:

- gwybodaeth am gyflogaeth yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, yn cynnwys ein hadroddiad ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau
- trosolwg o'r camau rydym wedi'u cymryd yn ystod 2025 i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol a sut rydym wedi defnyddio'r wybodaeth hon i gyflawni tri nod y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol i:

  - ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon
  - hyrwyddo cyfle cyfartal
  - feithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau

- amlinelliad o'n gwaith yn ystod 2025 i hyrwyddo cydraddoldeb a thuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb ar gyfer 2024-2028

**Mwy o wybodaeth**

Mae'r adroddiad ar gael ar ein gwefan: www.ynysmon.llyw.cymru Os oes ei angen arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Tîm Polisi a'r Gymraeg
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

Ffôn: 01248 75 00 57

E-bost: cydraddoldeb@ynysmon.llyw.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

**Dogfennau cysylltiedig** (sydd hefyd ar gael ar ein gwefan):

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028

# Cynnwys


Rhagair .... 3
Crynodeb gweithredol .... 5
Uchafbwyntiau'r flwyddyn .... 6
Ein hamcanion cydraddoldeb 2024-2028 .... 7
Cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb: monitro cynnydd .... 8
Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth .... 9
Adnabod, casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol .... 10
  Ein cymunedau .... 10
  Ein staff .... 11
  Recriwtio a chadw ein staff .... 11
  Hyfforddi a datblygu ein staff .... 12
Ein trefniadau ar gyfer asesu effaith .... 14
Edrych ymlaen .... 15
Atodiad 1: Pwrpas yr adroddiad .... 16
  Pam mae angen adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb? .... 16
  Pwy sy'n cael eu diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010? .... 16
Atodiad 2: Cynllun gweithredu .... 17
Atodiad 3: Data cyflogaeth, hyfforddiant a recriwtio .... 21
Atodiad 4: Adroddiad bwlch cyflog rhwng y rhywiau 2025 .... 29




## Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill, er gwaethaf ein gwahaniaethau

Mae parch yn un o werthoedd ein Cynllun y Cyngor sy'n diffinio pwy ydym ni a lle rydym am fynd fel sefydliad.

# Rhagair

Croeso i'n hadroddiad blynyddol cydraddoldeb 2025. Dyma'r ail adroddiad blynyddol ers i ni gyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024 i 2028.  Mae'n rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaethom yn ystod 2025 tuag at greu Ynys Môn lle gall pobl ffynnu, waeth beth yw eu gwahaniaethau.

Er mwyn sicrhau nad yw cydraddoldeb yn eistedd fel prosiect ar wahân i'n gwaith ar draws y sefydliad, mae gennym gysylltiadau cryf rhwng amcanion y cynllun cydraddoldeb ac amcanion strategol cynlluniau allweddol eraill y Cyngor.  Mae ein hamcanion cydraddoldeb 1, 3 a 4  yn arbennig o berthnasol gan eu bod yn cyd-fynd â thri o amcanion strategol Cynllun y Cyngor 2023 i 2028 – y brif ddogfen sy'n dylanwadu ar ein holl gynlluniau ar gyfer darparu gwasanaethau.

| Cynllun y Cyngor 2023-2028 | Amcanion Cydraddoldeb 2024-2028 |
| --- | --- |
| **Addysg**<br>Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol | **Addysg**<br>Cymryd camau i fynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol a chefnogi lles disgyblion ysgol |
| **Gofal cymdeithasol a lles**<br>Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg cywir | **Iechyd a gofal cymdeithasol**<br>Cymryd camau i wella iechyd, lles a gofal cymdeithasol |
| **Tai**<br>Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw yn rhywle'n 'gartref' | **Safonau byw**<br>Cymryd camau i wella safonau byw grwpiau gwarchodedig |

Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth hefyd yn egwyddor cyffredinol yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028.  Bydd hyn eto'n ein helpu i adeiladu cymdeithas decach i'n holl dinasyddion.

Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, nad yw ein hymrwymiad i gydraddoldeb wedi'i gyfyngu i'r blaenoriaethau sydd wedi'u cynnwys yn ein cynllun strategol.  Mae'r adroddiad blynyddol yma'n amlinellu sut yr ydym yn achub ar bob cyfle i ddatblygu cydraddoldeb drwy ein gwaith ar bob lefel o fewn y Cyngor.

Rydym wedi ymrwymo, o fewn ein galluoedd a'n dylanwad, i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon
- hyrwyddo cyfle cyfartal, a
- meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau

a hynny ymysg ein cymunedau a'n staff.

[Cynllun y Cyngor 2023-2028](#)
[Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028](#)



Dylan J Williams
Prif Weithredwr



Cynghorydd Alun Roberts
Aelod Portffolio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

# Crynodeb gweithredol

Mae Atodiad 1 yn amlinellu'r gyfraith sy'n sail i'r adroddiad blynyddol hwn.  Ei brif bwrpas yw dangos sut rydym wedi cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb dros y flwyddyn a fu.

**Uchafbwyntiau'r flwyddyn:** Mae uchafbwyntiau 2025 yn cynnwys cynnal ystod o ddigwyddiadau cydraddoldeb, diwylliannol a chrefyddol er mwyn **hyrwyddo dealltwriaeth a pharch** ar draws cymunedau amrywiol.

**Hyrwyddo cydraddoldeb:** Ceir hefyd rai enghreifftiau o sut yr aethom ati i hyrwyddo a datblygu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ystod 2025.  Mae'r enghreifftiau yn seiliedig ar feysydd gwaith ein hamcanion cydraddoldeb.

**Ein hamcanion cydraddoldeb 2024-2028:** Mae cynnydd yn erbyn cynllun gweithredu presennol ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn **gyffredinol gadarnhaol**, gyda'r rhan fwyaf o'r amcanion **wedi ei cyflawni neu ar y trywydd iawn**.  Mae'r manylion llawn ar gael yn Atodiad 2.

**Ein cymunedau:** Rydym yn parhau i gymryd camau cadarnhaol i nodi a chasglu gwybodaeth gydraddoldeb berthnasol am ein cymunedau.  Mae'n sail i'n strategaethau a'n cynlluniau corfforaethol a gwasanaeth. Eleni, cynhyrchwyd llawlyfr a rhestr wirio er mwyn **cefnogi staff** sy'n bwriadu ymgynghori ac ymgysylltu.

**Ein staff:** Roedd ein **bwlch cyflog** cymedrig rhwng y rhywiau ar 31 Mawrth 2025 yn **8.6%,** sy'n **is na ffigwr cyfartalog y DU**.  O ran casglu gwybodaeth am ein gweithwyr, cydnabyddwn bod angen darlun llawnach i'n helpu i nodi unrhyw anghydraddoldebau.  Fodd bynnag, rhaid hefyd derbyn hawliau unigolion i beidio â datgelu gwybodaeth bersonol os nad ydynt yn dymun gwneud hynny.

Ar y cyfan, credwn ein bod yn parhau i wneud camau cadarnhaol tuag at hyrwyddo a datblygu cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y sefydliad a byddwn yn parhau i ddatblygu ac esblygu'r dulliau presennol i sicrhau bod cynnydd yn parhau.

**Asesu effaith:** Rydym yn cydnabod y gofyniad statudol i asesu effaith ein penderfyniadau ar gydraddoldeb ac mae hyfforddiant ar gael i unrhyw aelod o staff sy'n teimlo bod angen arweiniad pellach arnynt.  Fe gafodd ein **templedi a chanllawiau eu hadolygu a'u diweddaru** eleni.  Maent ar gael ar ein mewnrwyd ac mae'r tîm Polisi a'r Gymraeg hefyd wrth law i gynnig cyngor.

**Edrych ymlaen:** Wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu blynyddol nesaf, byddwn yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed eleni.  Bydd hyn yn cynnwys cryfhau'r defnydd o ddata cydraddoldeb, canolbwyntio ar ganlyniadau mesuradwy ac adeiladu ar arbenigedd a'r berthynas gydweithredol â chydweithwyr Cydlyniant Cymunedol rhanbarthol.

# Uchafbwyntiau'r flwyddyn

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn gyfle i ddathlu gwaith arbennig ein staff tuag at hyrwyddo cydraddoldeb.  Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

## Cydlyniant cymunedol

Yn ystod 2025, nododd y Cyngor ystod o ddigwyddiadau cydraddoldeb, diwylliannol a chrefyddol trwy negeseuon cyfryngau cymdeithasol, gweithgareddau ymgysylltu â staff a digwyddiadau at y cyd gyda phartneriaid rhanbarthol. Derbyniwyd y gweithgareddau hyn yn dda, gydag adborth cadarnhaol gan staff, cymunedau lleol a sefydliadau partner.  Mae nodi'r digwyddiadau hyn yn:

- hyrwyddo dealltwriaeth a pharch ar draws cymunedau amrywiol
- cefnogi amcanion cydraddoldeb y Cyngor a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru
- cyfrannu at gydlyniant cymunedol ac yn helpu i herio cam wybodaeth
- tynnu sylw at brofiadau byw grwpiau lleiafrifol ac yn meithrin cynhwysiant yn y gweithle

## Hwb Hygyrchedd

Mae'r gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth a'r tîm hyfforddiant Adnoddau Dynol wedi datblygu Hwb Hygyrchedd pwrpasol i gefnogi swyddogion i greu cynnwys digidol hygyrch. Mae'r Hwb yn cynnig:

- canllawiau ymarferol ar gymhwyso safonau hygyrchedd
- modiwl e-ddysgu sy'n cyflwyno egwyddorion hygyrchedd allweddol
- dolenni i sesiynau hyfforddi ar gynhyrchu deunyddiau digidol hygyrch

Mae'r adnoddau wedi'u cynllunio i helpu ein gwasanaethau i fodloni gofynion hygyrchedd, gwella ansawdd cynnwys digidol, a sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad hawdd at wybodaeth y Cyngor.

## Diogelu ein gweithwyr

O dan y Ddeddf Diogelu Gweithwyr (Diwygiad i'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010) 2023, mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i gymryd camau rhesymol i atal aflonyddu rhywiol a gwella amddiffyniadau i weithwyr yn y gweithle.   Cafodd ein Polisi Urddas yn y Gwaith ei gryfhau eleni i adlewyrchu'r gofynion newydd hyn.  Llwyddom i godi ymwybyddiaeth staff am y ddyletswydd newydd trwy ofyn iddynt ddarllen, deall a derbyn ein Polisi Urddas yn y Gwaith diwygiedig.  Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd 93% o staff wedi gwneud hyn.

# Ein hamcanion cydraddoldeb 2024-2028



### 1: Addysg
Cymryd camau i fynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol a chefnogi lles disgyblion ysgol



### 2: Y gweithle
Cymryd camau i sicrhau ein bod yn gyflogwr cyfle cyfartal a lleihau bylchau cyflog



### 3: Safonau byw
Cymryd camau i wella safonau byw grwpiau gwarchodedig



### 4: Iechyd a gofal cymdeithasol
Cymryd camau i wella iechyd, lles a gofal cymdeithasol



### 5: Diogelwch personol
Cymryd camau i ddiogelu grwpiau gwarchodedig



### 6: Cymryd rhan
Cynyddu cyfleoedd ac annog amrywiaeth wrth wneud penderfyniadau



### 7: Anfantais economaidd-gymdeithasol
Cymryd camau i fynd i'r afael ag anfantais




### 8: Arferion gwaith
Gwella ein harferion mewnol i sicrhau tegwch i bawb

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) 2024-2028 yn nodi pam y gwnaethom ddewis ein hamcanion cydraddoldeb presennol a sut fyddwn ni’n eu cyflawni.

# Cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb: monitro cynnydd

Dywedom y llynedd mai un o'm prif flaenoriaethau yn 2025 fyddai sefydlu grŵp newydd i arwain ar weithredu ein CCS ar gyfer 2024 i 2028. Mae Grŵp Llywio'r Gymraeg a Chydraddoldeb bellach yn weithredol a'i brif bwrpas yw arwain yn strategol ar hybu'r iaith a chydraddoldeb ym mhob agwedd o waith y Cyngor. Mae aelodaeth y grŵp yn cynnwys y Prif Weithredwr ac aelodau etholedig. Fe drafododd y grŵp gynllun gweithredu presennol y CCS yn ei gyfarfod ar 29 Ionawr 2026.

Mae cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu presennol yn **gyffredinol gadarnhaol**, gyda'r rhan fwyaf o'r amcanion **wedi ei cyflawni neu ar y trywydd iawn**. Mae'r cynnydd yn cynnwys:




Hefyd ar y gweill yw ymgyrch i wella data cydraddoldeb y gweithlu a chryfhau ymwybyddiaeth ymhlith staff ac aelodau etholedig. Cewch ddarllen mwy am hyn yma.

Mae mwy o wybodaeth am y cynnydd y gwnaethom tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb ar gael yn Atodiad 2.

# Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth

Dyma rai enghreifftiau o sut yr aethom ati i hyrwyddo a datblygu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ystod 2025 yn unol â'n hamcanion cydraddoldeb:



### Addysg:

Ysgol Gyfun Llangefni oedd yr ysgol uwchradd prif lif gyntaf yn y DU i dderbyn gwobr Ysgol sy'n Wybodus am Drawma ac Iechyd Meddwl



### Y gweithle:

Dangosfwrdd Iechyd a Llesiant newydd wedi ei lansio ar ein safle e-ddysgu mewnol – Y Gronfa Ddysgu. Mae'n cynnwys ystod eang o adnoddau a hyfforddiant perthnasol gyda'r nod o gefnogi lles ein staff.



### Safonau byw:

Teuluoedd lleol wedi symud i fyw i stad o dai newydd sydd wedi cael eu dylunio i fod yn fforddiadwy ac ecogyfeillgar.



### Iechyd a gofal cymdeithasol:

Môn Actif ar y llwybr cywir i geisio sicrhau Ynys Môn iachach



### Diogelwch personol:

Diogelu iawndal ar gyfer rhai o ddioddefwyr bregus 'twyllwr proffesiynol.



### Cymryd rhan:

Arolwg barn tenantiaid y Cyngor yn dangos gwelliant parhaus.



### Anfantais economaidd-gymdeithasol:

Cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i greu 'Cymru sy'n falch o'r mislif' trwy ein menter leol – Fy Mislif / My Period.



### Arferion gwaith:

Parhau i rannu negeseuon 'Cipolwg Cydraddoldeb' misol i godi ymwybyddiaeth am faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a dangos parch i eraill, er gwaethaf ein gwahaniaethau

Ceir nifer o enghreifftiau eraill ar ein gwefan, ar y dudalen 'Newyddion' a chyhoeddiadau amrywiol eraill ar lefel corfforaethol a gwasanaethau.

# Adnabod, casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol



## Ein cymunedau

Rydym yn parhau i gymryd camau cadarnhaol i nodi a chasglu gwybodaeth gydraddoldeb berthnasol am ein cymunedau.  Mae’n sicrhau bod ein penderfyniadau’n wybodus, yn seiliedig ar farn defnyddwyr ein gwasanaethau a’r gymuned ehangach ac yn sail i’n strategaethau a'n cynlluniau corfforaethol a gwasanaeth.

Yn ystod 2025, cynhyrchwyd llawlyfr a rhestr wirio ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer staff.  Pwrpas y llawlyfr a’r rhestr wirio yw:

- darparu canllaw ymarferol i'r rhai sy'n bwriadu ymgynghori neu ymgysylltu
- gwella'r broses ymgynghori ac ymgysylltu a sicrhau cysondeb ar draws y Cyngor
- amlygu pwysigrwydd ymgynghori ac ymgysylltu wrth asesu'r effaith ar gydraddoldeb

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu a gwella’n barhaus y wybodaeth sydd gennym am grwpiau a warchodir ar Ynys Môn a byddwn yn parhau i weithio gyda’n partneriaid ac ymrwymo pobl i gyflawni hyn.



## Ein staff

Fel cyflogwr o ddewis, mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan annatod o werthoedd ac egwyddorion cyffredinol y Cyngor, sy'n datblygu ac yn llywio ein gweledigaeth, ein cynlluniau strategol a'n gwasanaethau i'r dyfodol. Rydym bob amser yn ymdrechu i gryfhau amrywiaeth ein gweithlu a chynnig diwylliant cynhwysol sy'n gwerthfawrogi gwahaniaeth, lle mae pob aelod o staff yn cael y cyfle i lwyddo.

Mae'r wybodaeth am gyflogaeth oedd ar gael i ni ar 31 Mawrth 2025 i'w gweld yn Atodiad 3. Rhoddir dadansoddiad o'r data hwnnw isod:

Mae'r data unwaith eto’n cadarnhau ein bod yn cyflogi llawer mwy o ferched na dynion, sy'n gyson â'r duedd ar draws llawer o awdurdodau lleol. Mae'r data yn ymddangos yn weddol gyson ar draws y nodweddion cydraddoldeb sy'n weddill.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ni gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Roedd ein bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau ar 31 Mawrth 2025 yn 8.6%, sy'n is na ffigwr cyfartalog y DU. Mae mwy o fanylion i'w gweld yn Atodiad 4.

Rydym wedi ymrwymo i gasglu gwybodaeth gywir am wahanol nodweddion gwarchodedig ac yn parhau i godi ymwybyddiaeth ynghylch pam rydym yn casglu'r data hwn a sut rydym yn ei ddefnyddio i wella. Er yn mynd i’r cyfeiriad cywir efo mwy o gynnydd eleni na blynyddoedd blaenorol, cydnabyddwn bod angen cyflymu’r cynnydd er mwyn cael darlun llawnach i'n helpu i nodi unrhyw anghydraddoldebau. Fodd bynnag, rhaid i ni hefyd dderbyn hawliau unigolion i beidio â datgelu gwybodaeth bersonol os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae rheolwyr yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd am y dyletswyddau cydraddoldeb trwy wahanol ddulliau cyfathrebu a gofynnir iddynt sicrhau bod staff yn ymwybodol o lle y gallant ychwanegu neu ddiwygio eu gwybodaeth cydraddoldeb.

## Recriwtio a chadw ein staff

Mae ein system recriwtio Linc Talent bellach wedi'i hymgorffori yn ein prosesau recriwtio. Mae'r broses recriwtio ar-lein newydd yn haws i’w defnyddio, ac mae swyddogion AD wedi bod yn cefnogi ymgeiswyr a rheolwyr drwy'r broses.

Rydym yn parhau i fynychu ffeiriau recriwtio a gyrfaoedd gydag ysgolion lleol a digwyddiadau cyflogaeth i hyrwyddo ein swyddi gwag ac i annog ystod amrywiol o ymgeiswyr i ymuno â'r gweithlu yn y dyfodol.

Mae ein cydweithrediad â Grŵp Llandrillo Menai wedi parhau i dyfu gyda mwy o leoliadau ar gael a nifer o straeon am lwyddiant lle mae hyn wedi datblygu'n gyfleoedd cyflogaeth.

Mae ein cyfranogiad yn yr agenda 'Gofalwn Cymru' hefyd wedi parhau'n llwyddiannus eleni, gan gefnogi gwaith ymgysylltu yn y sector gofal.

Mae llawer o bolisïau sy'n cefnogi cydraddoldeb wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru eleni. Fel yr ydym wedi nodi'n barod, mae'r Polisi Urddas yn y Gwaith wedi'i adolygu i gryfhau'r camau rhesymol i atal aflonyddu rhywiol yn unol â'r ddyletswydd ataliol gyfreithiol. Mae absenoldeb profedigaeth rhieni a cholli beichiogrwydd hefyd wedi'u cynnwys yn ein Polisi Absenoldeb Tosturiol, waeth beth yw hyd y gwasanaeth.

Mae gwaith hefyd wedi'i wneud i baratoi ar gyfer newidiadau deddfwriaethol, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â Deddf Hawliau Cyflogaeth 2025.

## Hyfforddi a datblygu ein staff

Yn unol â'n Strategaeth Pobl, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu gweithwyr ac aelodau etholedig, gan sicrhau mynediad cyfartal at gyfleoedd dysgu, hyfforddiant a datblygu. Gwneir hyn trwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys cymwysterau, cyrsiau byr yn yr ystafell ddosbarth ac ar-lein, e-ddysgu, dysgu cyfunol, dysgu hunangyfeiriedig, cysgodi a dysgu yn y swydd.

Mae hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth yn parhau i fod yn elfen annatod o'r rhaglen hyfforddi a datblygu. Er mwyn darparu gwasanaethau'n effeithiol, mae angen i'r holl staff ac aelodau etholedig fod yn ymwybodol o'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phenodol er mwyn sicrhau bod y gwaith y maent yn ei wneud.

Mae hyfforddiant e-ddysgu dan arweiniad tiwtoriaid ar gael i weithwyr, rheolwyr ac aelodau etholedig.

Mae cydraddoldeb hefyd yn bwnc allweddol o fewn y broses anwytho corfforaethol ar gyfer gweithwyr newydd.

Mae'r sesiynau hyfforddi a gyflwynwyd eleni wedi cynnwys:

## Hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth:

- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Rhagfarn diarwybod
- Asesu'r effaith ar gydraddoldeb
- Ymwybyddiaeth o fyddardod
- Ymwybyddiaeth o epilepsi
- Gwrth-hiliaeth i aelodau etholedig

## Modiwlau e-ddysgu:

- Cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth i aelodau
- Cydraddoldeb yn y gweithle
- Modiwl 1 - Deall awtistiaeth
- Modiwl 2 - Deall cyfathrebu effeithiol ac awtistiaeth
- Modiwl 3 - Deall asesu ac awtistiaeth

Ar y cyfan, credwn ein bod yn parhau i gymrud camau cadarnhaol tuag at hyrwyddo a datblygu cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y sefydliad a byddwn yn parhau i ddatblygu ac esblygu'r dulliau presennol i sicrhau bod cynnydd yn parhau.

# Ein trefniadau ar gyfer asesu effaith



Rydym yn cydnabod y gofyniad statudol i gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb ac mae hyfforddiant ar gael i unrhyw aelod o staff sy'n teimlo bod angen arweiniad pellach arnynt.

Rydym wedi parhau i roi blaenoriaeth i gryfhau ein trefniadau ar gyfer cynnal asesiadau effaith. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom adolygu ac adnewyddu ein templedi a'n canllawiau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r gofynion diweddaraf ac yn darparu cymorth ymarferol i swyddogion. Mae'r templedi a'r canllawiau ar gael ar ein mewnrwyd ac mae'r tîm Polisi a'r Gymraeg hefyd wrth law i gynnig cyngor.  Mae'r dangosfwrdd data costau byw a gyflwynwyd llynedd hefyd yn adnodd defnyddiol i swyddogion sy'n cynnal asesiadau effaith.

Yn ogystal, treuliodd y Tîm Polisi a'r Gymraeg amser sylweddol yn ymgysylltu ag uwch arweinwyr, timau rheoli gwasanaethau a swyddogion allweddol i hyrwyddo dealltwriaeth glir o'r diwygiadau o'r broses asesu effaith a'r gefnogaeth sydd ar gael. Bydd y gwaith hwn yn dwysáu ymhellach wrth i ni baratoi ar gyfer cyflwyno'r ddyletswydd statudol newydd i asesu effaith penderfyniadau strategol ar iechyd o fis Ebrill 2027 ymlaen, gan sicrhau ein bod wedi sefydlu trefniadau cadarn ac effeithiol ar gyfer y dyfodol.

Mae angen inni sicrhau bod cynghorwyr a swyddogion sydd â chyfrifoldebau gwneud penderfyniadau yn deall yr effaith debygol cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud.  Am y rheswm hwn, mae'r templedi blaen adroddiadau ar gyfer ein prif bwyllgorau – y pwyllgorau sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith – yn gofyn a fyddai'r penderfyniad yn cael unrhyw effaith bosibl ar rai grwpiau o fewn ein cymunedau.

Rydym hefyd wedi cryfhau ein gweithdrefnau blaen-gynllunio er mwyn nodi'r angen i asesu effaith yn fuan wrth baratoi ar gyfer cynnal gwaith ymgysylltu ac ymgynghori. Ceir mwy o wybodaeth am hyn yma.

Y nod yw bod adnabod a lliniaru effeithiau negyddol a hyrwyddo cydraddoldeb yn dod yn rhan o'n gwaith bob dydd. Mae hyn yn cynnwys llunio polisïau, arferion cyflogaeth, darparu gwasanaethau a swyddogaethau eraill yr ydym yn eu cyflawni. Mae'n ymddangos bod cynnydd yn symud yn gadarnhaol gyda mwy o feysydd yn cydnabod yr angen i asesu effaith ac mae'r canllawiau a'r templedi sydd ar gael yn cael eu defnyddio.

# Edrych ymlaen

Wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu blynyddol nesaf, mae cyfle i adeiladu ar y cynnydd a wnaed eleni drwy:

- gryfhau'r defnydd o ddata cydraddoldeb
- ganolbwyntio ar ganlyniadau mesuradwy
- adeiladu ar arbenigedd a'r berthynas gydweithedol â chydweithwyr Cydlyniant Cymunedol
- gwblhau trefniadau monitro ac adrodd
- baratoi ar gyfer cyflwyno dyletswydd statudol i asesu effaith ar iechyd ym mis Ebrill 2027

Byddwn yn eich diweddaru am gynnydd yn ein hadroddiad blynyddol nesaf.

# Atodiad 1: Pwrpas yr adroddiad

## Pam mae angen adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb?

Mae'r sail statudol ar gyfer datblygu'r adroddiad blynyddol hwn wedi'i chynnwys yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae Deddf 2010 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar gyrff cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r canlynol ym mhob agwedd o'u gwaith:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon
- Hyrwyddo cyfle cyfartal
- Meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau

Mae Rheoliadau 2011 yn cynnwys dyletswyddau penodol i helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Mae'r dyletswyddau penodol hyn yn cynnwys gofyniad i gyhoeddi adroddiadau cydraddoldeb blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn.  Prif bwrpas adroddiadau cydraddoldeb blynyddol yw dangos sut rydym wedi cyflawni ein dyletswyddau cyffredinol a phenodol.

## Pwy sy'n cael eu diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ymwneud â sicrhau tegwch i bawb. Mae'n diogelu'r nodweddion canlynol, a elwir hefyd yn 'grwpiau gwarchodedig':

- Oed
- Anabledd
- Rhyw
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred, gan gynnwys diffyg cred
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Priodas a phartneriaeth sifil

Nod y Ddeddf hefyd yw lleihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

# Atodiad 2: Cynllun gweithredu

Cynllun gweithredu: Cynllun Cydraddoldeb Strategol
Cyfnod: 2024/25 a 2025/26 (blynyddoedd un a dau)
Dyddiad a fersiwn: Ionawr 2026 (f.4)

| | Amcan | Gwasanaeth arweiniol | Partneriaid | Dyddiad cwblhau targed | Cynnydd | Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Cynnal calendr o ddyddiadau allweddol, digwyddiadau, a diwrnodau ymwybyddiaeth. | Tai (Cydlyniant Cymunedol) | Tîm polisi a'r Gymraeg<br>Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (NWPSEN) | Parhaus | Calendr wedi ei baratoi gan y Cydlynydd Cydlyniad Cymunedol ar y cyd efo'r Rheolwr Polisi a'r Gymraeg.<br><br>Calendr rhanbarthol yn cael ei baratoi gan bartneriaid NWPSEN i gynorthwyo aelodau'r rhwydwaith. | Melyn – Ar drac |
| 2. | Cynnal tri digwyddiad wyneb i wyneb i godi ymwybyddiaeth staff o achosion cydraddoldeb a chydlyniant cymunedol. | Tai (Cydlyniant Cymunedol) | Tîm polisi a'r Gymraeg | Mawrth 2026 | Digwyddiadau wedi eu cynnal yn y pencadlys:<br><br>1. Diwrnod Coffáu'r Holocost – Ionawr 2025<br>2. Eid – Mawrth 2025<br>3. Wythnos ffoaduriaid – Mehefin 2025<br>4. Diwrnod Coffáu'r Holocost – Ionawr 2026<br><br>Cynhadledd ranbarthol Gwahanol gyda'n Gilydd wedi ei gynnal yn Venue Cymru ym mis Ebrill 2025. | Gwyrdd - Wedi cwblhau |

| | Amcan | Gwasanaeth arweiniol | Partneriaid | Dyddiad cwblhau targed | Cynnydd | Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3. | Ymgyrch chwarterol cipolwg cydraddoldeb i godi ymwybyddiaeth staff o faterion sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb. | Tîm polisi a'r Gymraeg | Tai (Cydlyniant Cymunedol) | Parhaus | Negeseuon canlynol wedi eu rhannu:<br><br>• Yom Kippur – 2 Hydref<br>• Mis Balchder – Mehefin 2025<br>• Wythnos ffoaduriaid – Mehefin 2025<br>• Eid – Ebrill 2025<br>• Wythnos niwroamrywiaeth – Mawrth 2025<br>• Wythnos cydraddoldeb hil – Chwefror 2025<br>• Diwrnod Rhyngwladol Ieithoedd Arwyddo – Medi 2024<br><br>Weminar ar y cyd efo cynghorau Gwynedd a Chonwy wedi ei gynnal ar 4 Tachwedd 2025 i nodi Mis Hanes Pobl Ddu. | Melyn – Ar drac |
| 4. | Gwella / cynyddu'r data a gedwir ar nodweddion cydraddoldeb staff. | Adnoddau dynol | Tîm polisi a'r Gymraeg | Mawrth 2026 | Cyfarfod wedi ei gynnal â rheolwyr busnes a phosteri gyda chod QR wedi eu rhannu â'r gwasanaethau. Negeseuon yn annog staff i ddiweddaru eu manylion wedi eu rhannu ar:<br><br>• 2 Hydref 2025<br>• 26 Mehefin 2025<br>• 3 Ionawr 2025 | Melyn – Ar drac |

| | Amcan | Gwasanaeth arweiniol | Partneriaid | Dyddiad cwblhau targed | Cynnydd | Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5. | Cynnal sesiwn hyfforddiant penodol i aelodau etholedig ar ddyletswyddau cydraddoldeb yn cynnwys y cynllun cydraddoldeb strategol. | Gwasanaethau Democrataidd | Tîm hyfforddi AD | Mawrth 2026 | Darparwr wedi ei adnabod gan y tîm hyfforddiant â'r tîm polisi a'r Gymraeg. Disgwyl cadarnhau dyddiadau addas. | Melyn – Ar drac |
| 6. | Cynnal dau sesiwn hyfforddiant i staff ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a rhagfarn diarwybod. | Adnoddau Dynol | Tîm hyfforddi AD | Rhagfyr 2025 | Sesiynau wedi eu cynnal:<br>1. Rhagfarn diarwybod – 30 Mehefin 2025<br>2. Cydraddoldeb. Amrywiaeth a chynhwysiant – 2 Gorffennaf 2025 | Gwyrdd - Wedi cwblhau |
| 7. | Adolygu cynnwys mewnrwyd sy'n ymwneud â chydraddoldeb a chyhoeddi deunyddiau cymorth ychwanegol. | Tîm polisi a'r Gymraeg | | Mawrth 2026 | Templedi asesu effaith a dogfennau canllaw wedi eu hadolygu a'u diweddaru. | Gwyrdd - wedi cwblhau |
| 8. | Asesu dealltwriaeth staff o'r polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth trwy'r broses porth polisi. | Tîm polisi a'r Gymraeg | | Mawrth 2026 | | Oren - Heb ddechrau |
| 9. | Monitro ac adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau fel y mae'n ymwneud â gweithwyr y cyngor. | Adnoddau dynol | | Mawrth 2026 | | Gwyrdd - wedi cwblhau |

| | Amcan | Gwasanaeth arweiniol | Partneriaid | Dyddiad cwblhau targed | Cynnydd | Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 10. | Monitro bylchau cyflawniad addysgol mewn ysgolion. | Dysg | | Parhaus | | Melyn – Ar drac |

# Atodiad 3: Data cyflogaeth, hyfforddiant a recriwtio

Mae'r data cyflogaeth sydd gennym ar hyn o bryd yn ymwneud â rhyw 3,164 o weithwyr y Cyngor (gan gynnwys staff addysgu).

Yn yr adroddiad hwn, rhoddwyd ystyriaeth i nodweddion gwarchodedig rhyw, oed, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol ac anabledd staff presennol, lle mae'r wybodaeth honno yn hysbys ac wedi cael ei rhannu gyda ni. Mae yna hefyd ddadansoddiad o'r rhai sydd wedi gwneud cais am swyddi gwag o fewn y Cyngor.

O ran cadw ein data cydraddoldeb yn gyfredol, rydym yn coladu data cydraddoldeb fel rhan safonol o'r broses recriwtio. Er mwyn annog ymgeiswyr i rannu gwybodaeth, mae yna hefyd opsiwn i ddewis 'gwell gennyf beidio â dweud'. Mae hyn yn ein galluogi i fonitro a dadansoddi tueddiadau recriwtio a gweithredu ar ganfyddiadau'r data hwn.

Mae system hunanwasanaeth y Cyngor, Amdanaf i, yn galluogi gweithwyr i ychwanegu neu ddiweddaru eu gwybodaeth cydraddoldeb ar unrhyw adeg. Mae gwaith yn parhau i ddiweddaru'r data ac i rannu gyda gweithwyr y rhesymeg ynghylch coladu'r data hwn. Mae ymrwymiad i barhau i sicrhau bod y wybodaeth a gedwir mor gyfredol â phosibl.

Nodyn: Nid yw'n orfodol i weithwyr neu ymgeiswyr ddarparu data ynghylch anabledd, hil, crefydd neu gred, na chyfeiriadedd rhywiol. Mae'r categori 'anhysbys' yn y graffiau canlynol yn nodi nifer yr unigolion sydd wedi dewis peidio â darparu unrhyw ddata ynglŷn â'r nodweddion gwarchodedig hynny.

## Pobl a gyflogir gan y Cyngor ar 31 Mawrth 2025


Gwrywaidd: 827
Benywaidd: 2337
Cyfanswm: 3164


Oedran:


| | |
|---|---|
| O dan 25: | 351 |
| 26 i 34: | 531 |
| 35 i 44: | 750 |
| 45 – 54: | 699 |
| 55 i 64: | 651 |
| 65 a hŷn: | 182 |

Nid yw'n orfodol i weithwyr nag ymgeiswyr ddarparu data ar gyfer y canlynol. O'r rhai sydd wedi datgan, dyma'r dadansoddiad:


Anabl : 61
Du a lleiafrifoedd ethnig: 21
Lesbiaidd, hoyw, deurywiol: 34


Proffil oedran staff a gyflogwyd ar 31 Mawrth
800
700
600
500
400
300
200
100
0
350 351
549 531
742 750
740 699
655 651
190 182
Oed <25
Oed 26-34
Oed 35-44
Oed 45-54
Oed 55-64
Oed 65+
2024
2025



Rhyw y staff a gyflogwyd ar 31st March
3000
2500
2000
1500
1000
500
0
31/03/2024
31/03/2025
B
G




Crefydd y staff a gyflogwyd ar 31 Mawrth
1800
1600
1400
1200
1000
800
600
400
200
0
2 3
821 844
1 2
2 2
583 657
29 29
83 80
1704 1547
1 0
Bwdhydd
Cristion
Hindw
Iddew
Dim crefydd na chred
Arall
Gwell gennyf beidio â dweud
Anhysbys
Mwslimaidd
31/03/2024
31/03/2025

Staff â Baner Anabledd ar 31 Mawrth
61
66
2024
2025


Tarddiad ethnig y staff a gyflogwyd ar 31 Mawrth
1682
1525
2
1
12
15
3
3
1517
1606
1
1
8
9
1
4
0
200
400
600
800
1000
1200
1400
1600
Anhysbys
Tsieiniaidd
Cymysg
Arall
Gwyn
Du
Gwell gennyf beidio â dweud
Asiaidd
31/03/2024
31/03/2025


Cyfeiriadedd rhywiol y staff a gyflogwyd ar 31 Mawrth
0
200
400
600
800
1000
1200
1400
1600
1800
2000
17
18
4
7
1361
1461
6
8
103
96
1730
1571
0
0
3
1
2
2
Deurywiol
Hoyw
Heterorywiol
Lesbiad
Gwell gennyf beidio â dweud
Anhysbys
Arywiol
Hoyw neu Lesbiad
Gwell gennyf hunan-ddisgrifio
31/03/2024
31/03/2025

## Pobl a newidiodd rolau yn llwyddiannus yn 2024-25

Mae'r ffigyrau yn y tabl canlynol yn cynnwys y rhai sydd wedi cael eu dyrchafu, wedi newid rolau ar yr un lefel neu wedi cymryd ail swyddi gyda'r Cyngor:

Gwrywaidd: 132
Benywaidd: 344
Cyfanswm: 476

Oed:

| | |
|---|---|
| O dan 25: | 103 |
| 26 i 34: | 96 |
| 35 i 44: | 120 |
| 45 – 54: | 83 |
| 55 i 64: | 55 |
| 65 a hŷn: | 19 |

Nid yw'n orfodol i weithwyr neu ymgeiswyr ddarparu data ar gyfer y canlynol. O'r rhai sydd wedi datgan, dyma'r dadansoddiad:

Anabledd : 10
Du a lleiafrifoedd ethnig: 0
Lesbiaidd, hoyw, deurywiol: 5

## Hyfforddiant

Nifer y cyfranogwyr sydd wedi cwblhau hyfforddiant cwrs byr yn 2024-25:

Gwrywaidd: 705 (27%)
Benywaidd: 1698 (66%)
Heb ei benodi*: 180 (7%)
Cyfanswm: 2583

* Mae cofnodion 'heb eu penodi' yn ymwneud â rhai sydd wedi gadael y Cyngor ac felly nad oes data sy'n ymwneud â rhyw ar gael mwyach.

## Cwynion

Mae hon yn weithdrefn ffurfiol ar gyfer codi materion sy'n peri pryder na ellir eu datrys yn anffurfiol. Ni chodwyd unrhyw achosion cwynion ffurfiol rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

# Disgyblu

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â gweithwyr sy'n destun gweithdrefnau disgyblu rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 ac fe'i cyflwynir ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig:

Nifer y gweithwyr sy'n destun gweithdrefnau disgyblu: 19

| Oed | Anabledd | Ailbennu rhywedd | Beichiogrwydd a mamolaeth |
|---|---|---|---|
| 16-24: 2<br>25-34: 4<br>35-44: 8<br>45-54: 2<br>55-64: 3<br>65+: 0 | Gwybodaeth a gofnodwyd ar gyfer 5 allan o 19:<br><br>Dim anabledd: 5 | Gwybodaeth a gofnodwyd ar gyfer 5 allan o 19:<br><br>Ddim wedi ailbennu rhywedd: 5 | Dim un wedi'i gofnodi |
| **Hil** | **Crefydd neu gred** | **Rhyw** | **Cyfeiriadedd rhywiol** |
| Gwybodaeth a gofnodwyd ar gyfer 8 allan o 19:<br><br>Gwyn: 8 | Gwybodaeth a gofnodwyd ar gyfer 8 allan o 19:<br><br>Dim crefydd na chred: 1<br>Cristnogol: 7 | Gwryw: 10<br>Benywaidd: 9 | Gwybodaeth a gofnodwyd ar gyfer 7 allan o 19:<br><br>Heterorywiol: 6<br>Hoyw: 1 |

# Pobl sydd wedi gwneud cais am swyddi yn 2024-25

Gwrywaidd: 689
Benywaidd: 463
Gwell gennyf beidio â dweud: 14
Cyfanswm: 1166


Oed:


O dan 25: 320
26 i 34: 276
35 i 44: 225
45 – 54: 154
55 i 64: 79
65 a hŷn: 14
Gwell gennyf beidio â dweud: 11


Mae newid yn y ffigyrau ymgeiswyr oherwydd y system recriwtio newydd ym mis Mehefin 2024, sydd hefyd yn cynnwys staff mewnol.

Nid yw'n orfodol i weithwyr neu ymgeiswyr ddarparu data ar y categorïau canlynol. O'r rhai sydd wedi datgan, dyma'r dadansoddiad:

Anabledd : 61
Du a lleiafrifoedd ethnig: 41
Lesbiaidd, hoyw, deurywiol: 64




Baner Anabledd - Ymgeiswyr
27
40
2023/24
2024/25

# Atodiad 4: Adroddiad bwlch cyflog rhwng y rhywiau 2025

Ers 2017, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad yn flynyddol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Dyma ein hadroddiad cryno ar gyfer y dyddiad ciplun dyddiedig 31 Mawrth 2025. Mae'n cynnwys ystadegau ar gyfer ein holl weithwyr ar wahân i'r rhai a gyflogir mewn ysgolion. Mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

- Y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yw 8.6%
- Y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yw 7.8%

Gan nad ydym yn talu unrhyw fonysau i'n gweithwyr, nid yw unrhyw ddangosyddion bwlch bonws ar sail rhywedd yn berthnasol.

### Beth yw prif achos bwlch cyflog y Cyngor ar sail rhyw?

Rydym yn cefnogi'r egwyddor o gyflog cyfartal am waith cyfartal o werth cyfartal ac yn cydnabod y dylid cael strwythur cyflog a graddio sy'n rhydd o ragfarn ac yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddor o gyfle cyfartal a thriniaeth gyfartal i bob gweithiwr. Mae gennym bolisi clir o dalu gweithwyr yn gyfartal am yr un gwaith neu waith cyfatebol, waeth beth fo'u rhyw (nag unrhyw nodwedd arall). Mae pob swydd yn cael eu gwerthuso yn ôl yr angen i sicrhau strwythur teg. Rydym yn hyderus nad yw ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn deillio o dalu dynion a merched yn wahanol am yr un gwaith neu waith cyfatebol ac rydym yn falch o adrodd bod ein bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau, sef 8.65% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 13.4% (ONS ASHE Ffigyrau Dros Dro 2025).

Mae ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ganlyniad i'r rolau y mae dynion a merched yn gweithio yn y sefydliad a'r cyflogau y mae'r rolau hyn yn eu denu. Ar draws economi'r DU, mae dynion yn fwy tebygol na merched o fod mewn rolau uwch, tra bod merched yn fwy tebygol na dynion o fod mewn rolau rheng flaen ym mhen isaf y sefydliad. Nid yw'r rolau hyn yn sgorio'n uchel o fewn cynlluniau gwerthuso swyddi felly maent yn cael graddau cyflog is. Adlewyrchir hyn yng nghyfansoddiad ein gweithlu, lle mae'r mwyafrif o'n gweithwyr yn ferched ac mae cyfran fawr o'r rhain yn gweithio oriau rhan-amser mewn swyddi sy'n cael lefel is o gyflog, fel gofal cymdeithasol rheng flaen, glanhau, ac ati.

### Sut mae bwlch cyflog rhwng y rhywiau'r Cyngor hwn yn cymharu â bwlch cyflog sefydliadau eraill?

Mae gan y mwyafrif helaeth o sefydliadau ac awdurdodau lleol fwlch cyflog rhwng y rhywiau. Y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau ar gyfer yr economi gyfan (ffigyrau dros dro 2025 ONS) oedd 13.4%. Ar 8.6%, mae ein bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau yn is na ffigwr cyfartalog y DU. Y bwlch cyflog canolrifol ar gyfer yr economi gyfan (ffigyrau dros dro 2025 ONS) oedd 12.8%. Ar 7.8%, mae ein bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau yn is na'r cyfartaledd yma.

Ers cyhoeddi ein ffigyrau bwlch cyflog cyntaf yn 2017, rydym wedi parhau i gyflawni gostyngiad bach ar y cyfan yn ein bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r tabl isod yn dangos y data ar gyfer y cyfnod 2021 – 2025:

| Blwyddyn | Bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau | Bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau |
|---|---|---|
| Mawrth 2025 | 8.65% | 7.86% |
| Mawrth 2024 | 9.71% | 12.75% |
| Mawrth 2023 | 10.82% | 13.63% |
| Mawrth 2022 | 11.66% | 14.65% |
| Mawrth 2021 | 11.24% | 14.65% |

### Beth ydyn ni'n ei wneud i fynd i'r afael â'n bwlch cyflog rhwng y rhywiau?

Er bod ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn parhau i fod yn is na chyfartaledd y DU ac y cyflawnwyd gostyngiad bach flwyddyn ar flwyddyn, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i barhau i leihau ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau lle gallwn. Rydym yn cydnabod bod ein cwmpas i weithredu yn gyfyngedig, gan fod graddfeydd cyflog yn cael eu cytuno yn genedlaethol. Nid ydym yn gweithredu unrhyw gynlluniau cyflog na bonws sy'n gysylltiedig â pherfformiad ac yn cydnabod bod yn rhaid i gyflog a graddio pob swydd fod yn deg, yn dryloyw ac yn anwahaniaethol. Rydym yn gweithredu cynllun gwerthuso swyddi, gan gadw at egwyddorion cydraddoldeb a chynnal uniondeb a thegwch ein strwythur cyflog a graddio'n barhaus.

Rhoddwyd system recriwtio newydd ar waith yn 2024. Mae'r system newydd wedi symleiddio prosesau ac yn darparu profiad gwell i gwsmeriaid. Y gobaith yw y bydd y system newydd hon yn helpu i ddenu mwy o bobl i'r gweithlu ar bob lefel. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein strategaeth recriwtio a marchnata a byddwn yn parhau i wella cyfleoedd marchnata a hyrwyddo a'r defnydd o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Mae ein system recriwtio yn gallu integreiddio â llwyfannau eraill, gan ehangu ein hymgyrchoedd recriwtio ymhellach. Rydym wedi bod yn gweithio i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc, gyda swyddi dan hyfforddiant yn cael eu sefydlu o fewn y Cyngor, gan sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu sgiliau mewn meysydd twf a galw sy'n gwella cyflogadwyedd.

Rydym yn parhau i redeg rhaglenni talent a datblygu amrywiol sy'n agored i staff ar wahanol raddau, mewn ymgais i geisio denu mwy o bobl, yn enwedig merched, i rolau uwch. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni Arweinyddion Môn, Academi Môn a Twf a Datblygu. Fel rhan o'r rhaglenni hyn y gobaith yw annog mwy o bobl, yn enwedig merched, i ymgeisio am rolau arwain a'u cyflawni.

Rydym wedi sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MOU) gyda choleg lleol (Grwp Llandrillo Menai (GLIM)) sy'n ceisio integreiddio profiad gwaith i'w cyrsiau sefydledig fel modd o ddenu staff. Mae'r cydweithio'n parhau a bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach yn 2025/26.

Rydym yn cynnig trefniadau gweithio hyblyg i gefnogi cydbwysedd bywyd a gwaith pobl. Mae hyn yn rhan allweddol o'n strategaeth recriwtio a chadw. Rydym wedi ymrwymo i gydbwysedd bywyd a gwaith ac yn darparu ystod eang o gyfleoedd gweithio hyblyg fel modd o gefnogi, datblygu a chadw gweithwyr yn y gwaith. Mae'r

polisi Gweithio Hybrid wedi cynyddu hyblygrwydd ac wedi dileu rhwystrau i ferched a'r gweithlu cyfan rhag symud yn eu blaenau.

Rydym wedi cymryd camau i hyrwyddo amrywiaeth rhywedd ym mhob maes o'n gweithlu ac yn parhau â'n monitro rhywedd i ddeall:

- nifer yr ymgeiswyr gwrywaidd a benywaidd ar gyfer rolau penodol
- nifer y dynion a'r merched ym mhob rôl a band cyflog
- y cyfrannau o ddynion a merched sy'n gadael y sefydliad a'u rhesymau dros adael
- adolygu gwybodaeth a gafwyd trwy'r holiadur dechreuwyr newydd sy'n cael ei ddosbarthu i weithwyr newydd, 3 mis ar ôl eu dyddiad cychwyn
- adolygu gwybodaeth o gyfwediadau ymadael i ddeall yn well y rhesymau dros adael

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i:

- adolygu ein polisïau gweithio hyblyg a pholisïau eraill sy'n gyfeillgar i deuluoedd.
- adolygu ein strategaethau recriwtio a chadw a sefydlu dulliau gwahanol i ddenu talent.
- monitro gwybodaeth am gyflogau cyfartal a chynnal archwiliadau cyflog cyfartal.
- monitro cydymffurfiaeth â phrosesau gwerthuso swyddi.
- adolygu telerau ac amodau'n rheolaidd gyda'r undebau llafur cydnabyddedig.
- sicrhau nad oes unrhyw rwystrau canfyddedig i ddatblygiad a chynnydd
- parhau i wella ein systemau monitro cydraddoldeb
- sicrhau bod Adroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau yn cael ei gwblhau'n flynyddol, gan gymharu data o flwyddyn i flwyddyn

Rydym wedi sefydlu "holiadur dechreuwyr newydd" sy'n cael ei ddosbarthu i weithwyr newydd, 3 mis ar ôl eu dyddiad cychwyn. Nod hyn yw sefydlu a yw ein prosesau ymsefydlu a chynefino yn gweithio'n effeithiol ac a yw gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl newydd. Mae ein polisi Llesiant yn ffurfioli ac yn cadarnhau ein safbwynt mewn perthynas â chefnogi iechyd a lles ein staff.

Ni fydd yr un o'r mentrau hyn, ar eu pen eu hunain, yn dileu'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac efallai y bydd yn sawl blwyddyn cyn i ni weld effaith sylweddol. Rydym wedi ymrwymo i:

- fod yn gyflogwr teg a chyfiawn
- fod yn gyflogwr sy'n sicrhau nad yw ei weithwyr yn destun gwahaniaethu annheg.
- barhau i adrodd yn flynyddol ar yr hyn yr ydym yn ei wneud i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac unrhyw gynnydd pellach yr ydym yn ei wneud.

Rydym wedi ymrwymo i egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant. Byddwn yn parhau i annog mwy o staff i gwblhau'r holiadur data cydraddoldeb dewisol drwy'r porth hunanwasanaeth, er mwyn cynyddu'r data sydd gennym.  Bydd hyn yn helpu i adnabod unrhyw fylchau yn y gweithlu.

Byddwn yn parhau i fynd i'r afael â'r meysydd canlynol:

- Parhau i ddatblygu ein data cydraddoldeb ac annog gweithwyr i ddiweddaru eu gwybodaeth ar adeg eu cyflogaeth i rolau newydd neu drwy'r porth hunanwasanaeth (MyView)
- Parhau i fonitro polisïau sy'n gyfeillgar i deuluoedd ac annog gweithwyr yn weithredol i ddefnyddio'r cynlluniau sydd ar gael
- Adolygu ein telerau ac amodau yn flynyddol, ar y cyd â'r undebau llafur cydnabyddedig

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu triniaeth gyfartal i'n gweithwyr, waeth beth fo'u rhyw neu nodweddion gwarchodedig eraill. Er bod ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn is na chyfartaledd y DU, rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i barhau i leihau hyn lle gallwn.

This page is intentionally left blank

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 18/03/2026 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Cerdyn Sgorio Ch3 2025/26 |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng. Jeff Evans |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| **Aelod Portffolio** | **Rôl** |
|---|---|
| Cyng. Robin W Williams | Dirprwy Arweinydd, Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Huw Ynyr | Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio |
| Gwyndaf Parry | Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Mae'n gyfrifoldeb ar y Pwyllgor, yn unol â'i Gylch Gorchwyl, i:

Bydd gwaith y Pwyllgor yn canolbwyntio ar roi sicrwydd ynglŷn â pherfformiad / darpariad yr holl wasanaethau, sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol a'i amcanion gwasanaeth (fel yr amlinellwyd yn ei Gynllun Busnes Corfforaethol , Cyllideb Flynyddol, Fframwaith Cyllideb a Pholisi, Fframwaith Rheoli Perfformiad, Polisïau Corfforaethol neu gynlluniau a pholisïau sy'n eu holynu) ac i gefnogi a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant parhaol.

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☒Er sicrwydd
☒Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):

1. Gofynnir i'r Pwyllgor craffu'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd o welliannau ynghyd â'r meysydd mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn rheoli a sicrhau gwelliant pellach yn y dyfodol.

2. Argymhellir y rhain fel a ganlyn:



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

2.1. Gofal Cymdeithasol a Llesiant – 08) Canran y cyfeiriadau plant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis - Mae’r perfformiad yn Amber oherwydd bod rhai ail-atgyfeiriadau wedi codi o ganlyniad i amgylchiadau annisgwyl nad oedd modd eu rhagweld; gweler pwynt 2.2.1 o’r adroddiad am ragor o wybodaeth.

2.2. Tai - 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) - Mae’r perfformiad yn parhau’n Goch ond yn dangos gwelliant o fis i fis, er bod y ffigur cronnol ar hyn o bryd yn dal i gael ei effeithio gan etifeddiaeth prosesau hŷn; gweler pwynt 2.2.2 o’r adroddiad am ragor o wybodaeth.

2.3. Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl (DFG)– addasiadau (£1k-10k) - Wedi’i effeithio gan benderfyniad i oedi cymeradwyaethau ar ddiwedd 2024 a phrinder contractwyr lleol ar gael i ymgymryd â’r gwaith; gweler pwynt 2.2.3 o’r adroddiad am ragor o wybodaeth.

2.4. Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl (DFG)– addasiadau (>£10k) - Mae’r perfformiad yn Goch oherwydd yr un ffactorau sy’n effeithio ar DFGs Canolig (ôl-groniad o achosion ac argaeledd contractwyr); gweler pwynt 2.2.3 o’r adroddiad am ragor o wybodaeth.

2.5. Economi – 04) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol - Methwyd y targed oherwydd dirywiad hirdymor yn y galw a mantais gystadleuol gan farinas sy’n cynnig gwell cyfleusterau cerdded ymlaen i gychod; gweler pwynt 2.2.4 o’r adroddiad am ragor o wybodaeth.

2.6. Economi - 07) Canran y busnesau risg uchel sy’n cael eu harchwilio’n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd - Mae’r perfformiad wedi’i effeithio gan flaenoriaethu’r cynllun trwyddedu gweithdrefnau arbennig newydd, ond mae cynlluniau ar waith i ddal i fyny â’r archwiliadau risg uchel fel blaenoriaeth yn Ch4; gweler pwynt 2.2.5 o’r adroddiad am ragor o wybodaeth.

2.7. Newid Hinsawdd – 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio - Mae’r perfformiad wedi gostwng i Goch yn bennaf oherwydd bod y tywydd sych wedi lleihau’n sylweddol faint o wastraff gwyrdd a gasglwyd; gweler pwynt 2.2.6 o’r adroddiad am ragor o wybodaeth.

2.8. Iechyd Cyngor Cyfan - 12) % y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser - Mae’r perfformiad yn parhau’n Goch oherwydd cyfyngiadau capasiti o fewn y gwasanaethau, er bod system ar-lein a phroses newydd yn cael eu datblygu i wella effeithlonrwydd; gweler pwynt 2.2.7 o’r adroddiad am ragor o wybodaeth.

3. **Gofynnir i'r pwyllgor argymell y mesurau lliniaru a amlinellir uchod i'r Pwyllgor Gwaith**

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Defnyddir fel rhan o'r fframwaith rheoli perfformiad i fonitro Cynllun y Cyngor a'i amcanion strategol a llesiant.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1. **Perfformiad Da a Gwelliant Parhaus –** 86% o'r dangosyddion yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau (RAG Gwyrdd neu Melyn)

2. **Dangosyddion sy'n Tanberfformio a Cynlluniau ar gyfer gwella –** mae wyth dangosydd perfformiad allweddol (KPI) yn tanberfformio (RAG Coch neu Amber)

3. **Cyllid ac Adnoddau er mwyn cefnogi gwelliant**

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

**6.1** Hwn yw'r trydydd cerdyn sgorio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26. Mae'n dangos perfformiad y Cyngor yn erbyn ei amcanion strategol fel yr amlinellwyd yn Cynllun y Cyngor.

**6.2** Mae mwyafrif (86%) o'r dangosyddion sydd â thargedau sy'n cael eu monitro yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn)

**6.3** Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 3. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

- Mae 262 o oedolion bellach yn derbyn Taliadau Uniongyrchol, sy'n rhagori ar y targed o 224 ac yn dangos cynnydd cyson ers Ch1.
- Mae cyfranogiad yn parhau'n uchel, gyda 445,982 o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, gan ragori ar y targed o 437,943.
- Penderfynwyd ar 96% o geisiadau cynllunio o fewn yr amserlen, gan barhau â'r duedd gadarnhaol a welwyd drwy gydol y flwyddyn.
- Mae pob categori ffordd (A, B ac C) yn Wyrdd yn erbyn y targedau, gyda dim ond 1.5% o ffyrdd A, 1.1% o ffyrdd B a 5.4% o ffyrdd C mewn cyflwr gwael.
- Mae cyfanswm yr ôl-ddyledion rhent gan denantiaid presennol bellach yn 2.16% o gyfanswm y rhent y gellir ei gasglu ar gyfer llety parhaol, sy'n welliant o'i gymharu â'r 3.35% ar ddiwedd Ch2.

**6.4** Mae wyth dangosydd ar hyn o bryd yn Goch neu'n Ambr yn erbyn eu targedau

- Gofal Cymdeithasol a Llesiant – 08) Canran y cyfeiriadau plant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis
- Tai - 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod);
- Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (£1k-10k);
- Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (>£10k);
- Economi – 04) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol
- Economi - 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd
- Newid Hinsawdd – 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio;
- Iechyd Cyngor Cyfan - 12) % y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser.

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Amh.

7.2. Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

Amh.

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Amh.

7.4. Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor -

Mae'r adroddiad yn un offeryn a ddefnyddir i fonitro'r Amcan Strategol Newid Hinsawdd

## 8. Goblygiadau ariannol

Nodir sefyllfa ariannol diwedd chwarter 3 yn yr adroddiad

## 9. Atodiadau

| |
|---|
| Adroddiad Cerdyn Sgorio Ch3 2025/26 |

## 10. Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

| |
|---|
| Gwyndaf Parry, Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau<br>Alwyn Williams, Dadansoddwr Perfformiad a Busnes Corfforaethol<br>Cynllun y Cyngor 2023-2028<br>Adroddiad Cerdyn Sgorio Ch2 2025/26 (fel y'i cyflwynwyd i'r pwyllgor ym mis Tachwedd 2025) |

# Cerdyn Sgorio Corfforaethol 2025/26

## Adroddiad Chwarter 3

Tudalen 52

**Paratowyd gan –** Gwasanaeth Trawsnewid

**Dyddiad cyhoeddi:** Mawrth 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn nodi chwe amcan strategol ac yn nodi'r camau gweithredu a'r ymrwymiadau allweddol ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Yr Iaith Gymraeg** | **Gofal Cymdeithasol a Llesiant** | **Addysg** | **Tai** | **Economi** | **Newid Hinsawdd** |

Cynllun y Cyngor 2023 i 2028

1.2 Defnyddir yr adroddiad cerdyn sgorio i fonitro perfformiad ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer 2024/25 wrth gyflawni gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor sy’n sail i gyflawni Cynllun y Cyngor.

1.3 Mae nifer o DPA yn newydd (wedi’u nodi gan [N] yn y teitlau), nid oes gan rhai ohonynt dargedau ar hyn o bryd ac maent yno i osod gwaelodlin, gyda rhywfaint o ddata ddim ar gael tan yn hwyrach yn y flwyddyn. Mae tueddiadau’n cael eu monitro o Ch2 yn ystod 2025/26 gyda’r nod o osod targedau yn 2026/27 lle bo’n briodol.

1.4 Mae’n darparu’r dystiolaeth i alluogi’r Cyngor i fonitro ei berfformiad a bod yn wybodus o ddata wrth nodi unrhyw gamau lliniaru y cytunwyd arnynt gan y Tîm Arweinyddiaeth i ysgogi a sicrhau gwelliannau perfformiad yn y dyfodol.

1.5 Mae'r canlyniadau o fewn y cerdyn sgorio yn gronnol yn bennaf ac felly mae colofn tuedd ar gael i hysbysu'r tueddiadau perfformiad o un chwarter i'r llall. Fodd bynnag, mae rhai Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cynrychioli darlun ar adeg benodol ar ddiwedd y chwarter ac nid ydynt yn gronnol. I ddangos hyn yn glir, mae'r dangosyddion penodol hyn bellach wedi'u nodi gyda [Q] yn eu teitlau.

1.6 Mae'r adroddiad bellach yn cynnwys cyfeiriad teithio ar gyfer pob dangosydd i ddangos a yw'r perfformiad disgwyliedig i fod yn "uchaf y gorau" neu'n "isaf y gorau". Yn flaenorol nid oedd hyn yn yr adroddiad; fodd bynnag, mae'r wybodaeth bellach yn cael ei chynrychioli'n weledol gan < (isaf y gorau) neu > (uchaf y gorau) ar ddiwedd teitl y dangosydd.

1.7 Mae rhai newidiadau wedi'u gwneud yn yr adroddiad chwarter 3 o gymharu ag adroddiadau blaenorol yn ystod y flwyddyn, yn bennaf i deitlau a disgrifiadau ambell i ddangosyddion. Gellir gweld mwy o fanylion yn Atodiad A.

1.8 Gellir gweld y statws CAG ar gyfer bob adran o'r cerdyn sgorio, ac eithrio rheolaeth ariannol sy'n cael ei gwblhau o safbwynt barn broffesiynol, isod:

- Coch – mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
- Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen peth ymyrraeth
- Melyn – o fewn 5% i'r targed
- Gwyrdd – wedi cyrraedd y targed, neu wedi mynd y tu hwnt iddo.

## 2. Trosolwg

2.1 Mae mwyafrif (86%) o’r dangosyddion sydd â thargedau sy’n cael eu monitro yn perfformio’n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn).

2.2 Mae wyth dangosydd ar hyn o bryd yn Goch neu’n Ambr yn erbyn eu targedau:

2.2.1 Gofal Cymdeithasol a Llesiant - 08) Canran y cyfeiriadau plant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis - AMBR - 18.60% yn erbyn targed o 15%.

Roedd 56 o'r 301 o gyfeiriadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod yn rhai ail-gyfeirio. Mae'n bwysig nodi bod y cyfeiriadau hyn yn cael eu gwneud gan asiantaethau a phartneriaid, ac er bod pob un yn cael ei adolygu gan y gwasanaeth, ni fydd pob un yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ymyriadau pellach gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Cynhaliwyd adolygiad o'r achosion a gafodd eu hail-asesu o fewn 12 mis. Daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad nad oedd yr amgylchiadau a arweiniodd at yr ail-asesu yn rhagweladwy ac na fyddai wedi bod yn bosibl eu rhagweld adeg y cau gwreiddiol. Gall y Cyngor gadarnhau y dilynwyd yr holl brosesau cywir yn yr achosion hyn. Diogelu fydd prif flaenoriaeth y Cyngor o hyd, a'i ymrwymiad i ymyrryd pan fo angen i sicrhau diogelwch plant.

2.2.2 Tai - 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) – COCH – 70 diwrnod, Targed – 51 diwrnod

Er bod y perfformiad yn parhau'n Goch, mae'r duedd yn gadarnhaol, gan wella o 89 diwrnod yn Ch1 a 80 diwrnod yn Ch2 i 70 diwrnod yn Ch3. Mae'r ffigwr cronnol yn dal i gael ei effeithio gan y broses hanesyddol a oedd ar waith cyn Ebrill, pan roedd eiddo a ddychwelwyd yn cymryd tua 101 diwrnod ar gyfartaledd i'w hail-osod. Ers gweithredu'r prosesau newydd ym mis Ebrill, mae'r gwasanaeth wedi gweld gwelliant cyson, gyda'r amseroedd ail-osod gryn dipyn yn is ar gyfartaledd. Bydd y gwasanaeth yn parhau i wreiddio’r prosesau hyn er mwyn cynnal y duedd gadarnhaol hon.

2.2.3 Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl (DFG)– addasiadau (£1k-10k) - AMBR - 201 diwrnod, Targed - 190 diwrnod
ac
Tai – 05) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl (DFG) - addasiadau (>£10k) – COCH – 285 diwrnod, Targed - 221 diwrnod

Mae perfformiad wedi'i effeithio gan y penderfyniad i ohirio cymeradwyo prosiectau newydd ym mis Tachwedd 2024 er mwyn rheoli'r gyllideb ac osgoi gorwario, a arweiniodd at effaith gadwynol. Pan ailddechreuwyd cymeradwyo, gwelwyd cynnydd sylweddol mewn cymeradwyaethau newydd yn ystod Mai a Mehefin 2025 wrth i'r gyllideb gael ei rheoli i mewn i'r flwyddyn ariannol newydd. Erbyn hynny, roedd llawer o'r contractwyr llwyddiannus eisoes wedi symud ymlaen i brosiectau eraill, gan arwain at oedi wrth ddechrau'r contractau.

Mae'r sefyllfa'n cael ei chymhlethu ymhellach gan y nifer gyfyngedig o gontractwyr lleol sydd ar gael i ymgymryd â gwaith DFG, sy'n arwain at batrwm blynyddol sy'n effeithio ar y gallu i gyflawni'r gwaith a rheoli llwyth gwaith y contractwyr. Er bod cynnydd bach wedi bod yn nifer y contractwyr lleol, nid yw llawer ohonynt yn llwyddo i ennill tendrau DFG, sy'n cyfrannu ymhellach at oedi. Yn ogystal, mewn tri achos, gohiriwyd y gwaith ar gais y cleient neu oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y gwasanaeth.

Er cyd-destun, cwblhawyd 20 eiddo gydag addasiadau canolig a 2 eiddo gydag addasiadau mawr hyd at ddiwedd mis Rhagfyr. Ar hyn o bryd mae 55 o gynlluniau wedi'u cymeradwyo yn y system ar gyfer 2025-26.

2.2.4 Economi – 04) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol – AMBR – 161, Targed – 173

Mae cynnydd o 10 contract angori wedi'u prynu yn ystod Ch3 yn welliant o'i gymharu â dim ond 1 a brynwyd yn Ch3 a Ch4 2024/25. O ganlyniad, mae'r perfformiad ar gyfer y cyfnod wedi symud o Goch i Ambr.

Fodd bynnag, mae'r galw am angorfeydd yn parhau i ostwng. Mae hyn yn cael ei yrru gan ostyngiad mewn perchnogaeth cychod a'r duedd gynyddol i ffafrio cyfleusterau marina 'camu ymlaen' dros fodel presennol y Cyngor. Mae'r gofyniad i lesddeiliaid brynu a gosod eu hoffer angori eu hunain hefyd yn gwneud cynnig y Cyngor yn llai cystadleuol o'i gymharu â marinas cyfagos yng Nghonwy, Caernarfon a Phwllheli.

Mae'n debygol mai dim ond drwy gyflwyno system lle mae'r Cyngor yn berchen ar yr angorfeydd ac yn eu gosod – yn debyg i'r model a ddefnyddir gan rai darparwyr eraill – y gellid cynyddu'r galw. Fodd bynnag, byddai'r buddsoddiad cychwynnol yn sylweddol ac nid yw'n realistig o fewn y gyllideb bresennol. Er gwaethaf y gwelliant yn Ch3, mae'n annhebygol iawn y bydd y targed blynyddol yn cael ei gyrraedd.

2.2.5 Economi - 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd – COCH – 65%, Targed – 90%

Cynhaliwyd 95 o'r 146 o archwiliadau a oedd yn ddisgwyliedig hyd at ddiwedd Ch3. Mae hyn yn debyg o'i gymharu â'r 64% a gyflawnwyd yn Ch2 ond yn is na'r 85% a gyflawnwyd ar ddiwedd Ch3 yn 2024/25.

Gohiriwyd archwiliadau yn gynharach yn y flwyddyn oherwydd y flaenoriaeth a roddwyd i'r cynllun trwyddedu gweithdrefnau arbennig newydd (e.e. tatŵwyr), a oedd yn gofyn am asesiadau cymhleth gan ddau swyddog. I adfer perfformiad, bydd swyddogion yn blaenoriaethu cynnal yr holl archwiliadau bwyd rhaglenedig sy'n ddisgwyliedig ac yn hwyr yn Chwarter 4 drwy dda flaenoriaethu dros dro ymweliadau cynghori risg isel a gwaith anstatudol arall.

2.2.6 Newid Hinsawdd – 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio – COCH – 65.54%, Targed - 70%

Roedd perfformiad Ch3 ar gyfer y dangosydd hwn yn 65.54% yn erbyn targed o 70%, sy'n ostyngiad o'i gymharu â'r 66.1% a gofnodwyd yn Ch3 2024/25 ac yn Ch3 2023/24.

Mae'r gyfradd ailgylchu wedi cael ei heffeithio'n negyddol gan y tywydd sych yn gynharach yn y flwyddyn, a arweiniodd at gasglu llawer llai o wastraff gwyrdd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae'r Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar ei strategaeth hirdymor o leihau gwastraff cyffredinol a chynyddu ailgylchu drwy ymgysylltu â chymunedau a gwaith y tîm Ymyrraeth Wrth y Cwrb, ond bydd angen amser cyn y bydd y newidiadau ymddygiadol hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y data.

Mae data a gwaith ymchwil cyfredol yn dangos y gall tua 52% o'r gwastraff sy'n cael ei roi mewn biniau du ar Ynys Môn gael ei ailgylchu. Oherwydd y posibilrwydd o ddirwy flynyddol o tua £350k gan Lywodraeth Cymru am beidio â chyrraedd y targed cenedlaethol o 70%, mae'r Cyngor wedi ymgynghori'n ddiweddar â thrigolion ar y posibilrwydd o:

- addasu cyfluniad y bocs troli er mwyn casglu papur a chardfwrdd gyda'i gilydd
- darparu cynwysyddion ychwanegol i aelwydydd i storio ailgylchu ychwanegol
- lleihau faint o wastraff a gesglir pob wythnos trwy wagio biniau du bob 4 wythnos yn hytrach na phob 3 wythnos

Bydd ymatebion i'r arolwg yn cael eu dadansoddi, a bydd argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol cyn gwneud unrhyw newidiadau.

2.2.7 Iechyd Cygnor Cyfan - 12) % y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser – COCH – 79%, Targed – 90%

Mae'r perfformiad yn parhau i fod islaw'r targed oherwydd cyfyngiadau capasiti o fewn gwasanaethau i brosesu ceisiadau. Mae gwaith ar y gweill i weithredu system ar-lein newydd o fewn y CRM er mwyn symleiddio'r broses a sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r ICO. Mae Swyddog Diogelu Data (DPO) presennol y Cyngor wedi adolygu polisi a gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer ceisiadau gwybodaeth. Disgwylir y bydd y system ar-lein newydd yn cyfrannu at wella perfformiad yn y tymor hwy. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad mewn capasiti o fewn gwasanaethau i ddelio â cheisiadau gwybodaeth hefyd yn golygu bod cyrraedd y targed o 90% yn parhau i fod yn her.

2.3 Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

2.3.1 Mae 262 o oedolion bellach yn derbyn Taliadau Uniongyrchol, sy'n rhagori ar y targed o 224 ac yn dangos cynnydd cyson ers Ch1.
2.3.2 Mae cyfranogiad yn parhau'n uchel, gyda 445,982 o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, gan ragori ar y targed o 437,943.
2.3.3 Penderfynwyd ar 96% o geisiadau cynllunio o fewn yr amserlen, gan barhau â'r duedd gadarnhaol a welwyd drwy gydol y flwyddyn.
2.3.4 Mae pob categori ffordd (A, B ac C) yn Wyrdd yn erbyn y targedau, gyda dim ond 1.5% o ffyrdd A, 1.1% o ffyrdd B a 5.4% o ffyrdd C mewn cyflwr gwael.
2.3.5 Cyflawnodd 100% o'r plant eu targedau (trochi) yn yr Uned Iaith Gymraeg.
2.3.6 Mae cyfanswm yr ôl-ddyledion rhent gan denantiaid presennol bellach yn 2.16% o gyfanswm y rhent y gellir ei gasglu ar gyfer llety parhaol, sy'n welliant o'i gymharu â'r 3.35% ar ddiwedd Ch2.

## 3. Yr Iaith Gymraeg

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Targed Ch3 | CAMG Ch3 | Tuedd Ch | Ch3 2024/25 | Sylwadau Ch3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Canran o swyddi hysbysebir gan y Cyngor gyda'r gofyniad iaith Gymraeg lefel 3 ac uwch [N] [>] | 85% | 88% | 86% | 82% | G | ↓ | 83% | |
| 02) Nifer swyddogion sydd yn derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg [>] | 50 | 64 | 67 | 66 | G | ↓ | 66 | |
| 03) Nifer o gwynion sydd yn creu amheuaeth o fethiant i gwrdd â safonau iaith Gymraeg [<] | 0 | 0 | 0 | 6 | G | → | 6 | |
| 04) Nifer o gwynion arweiniodd at ymchwiliad statudol gan Gomisiynydd y Gymraeg [<] | 1 | 1 | 1 | | | → | 0 | |
| 05) Canran o ymweliadau â rhyngwyneb ein prif wefan yn Gymraeg [>] | 9% | 7% | 8.4% | 9% | M | ↑ | 8% | |
| 06) Canran yr ymatebion i ymgynghoriadau swyddogol a wnaed yn Gymraeg [>] | - | 6% | 6.4% | 8% | M | ↑ | 9% | |
| 07) Canran y dilynwyr sy'n dilyn ochr Gymraeg prif gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor [>] [Q] | 23% | 23% | 23% | 23% | G | → | 23% | 6233 ar Facebook a 4703 ar X |
| 08) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] [>] | | | | | | | | |
| 09) Uned Iaith - % o blant yn cyrraedd eu disgwyliadau (trochi) [N] [>] | | | 100% | 95% | G | | | |
| 10) Nifer busnesau yn derbyn cefnogaeth Iaith Gymraeg [N] [>] | | | | | | | | Data ar gael yn Ch4 |

## 4. Gofal Cymdeithasol a Lleisiant

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Targed Ch3 | CAMG Ch3 | Tuedd Ch | Ch3 2024/25 | Sylwadau Ch3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer yr oedolion sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol [>] | 256 | 247 | 262 | 224 | G | ↑ | 231 | |
| 02) Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn yr amserlen statudol [>] | 96.34% | 94.15% | 94.31% | 90% | G | ↑ | 91.51% | |
| 03) Canran yr oedolion sydd wedi derbyn cyngor a chymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac sydd heb gysylltu â'r gwasanaeth yn ystod y 6 mis dilynol [>] | 88.07% | 87.64% | 88.27% | 85% | G | ↑ | 91.17% | |
| 04) Nifer y bobl hŷn (65 oed a hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal [<] | 295 | 323 | 319 | 335 | G | ↑ | 291 | |
| 05) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn [>] | 98.20% | 98.60% | 98.70% | 93% | G | ↑ | 96.40% | |
| 06) Yr amser y mae'r holl blant sy'n dal i fod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi'i dreulio ar y gofrestr ar gyfartaledd, fel ac yr oedd pethau ar ddiwedd y chwarter [<] | 163 | 170 | 181 | 270 | G | ↓ | 129 | |
| 07) Plant a gafodd eu Hail-gofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o fewn 12 mis ar ôl cael eu tynnu oddi ar y gofrestr [<] | 3.57% | 1.56% | 5.71% | 15% | G | ↓ | 0 | |
| 08) Canran y cyfeiriadau plant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis [<] | 7.69% | 15.68% | 18.60% | 15% | A | ↓ | 13.04% | Roedd 56 o'r 301 cyfeiriad yn ail-gyfeiriadau |
| 09) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal a oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau [>] | 90.61% | 90.39% | 90.98% | 90% | G | ↑ | 90.72% | |
| 10) Canran y Cynlluniau Llwybr Cychwynnol a oedd i fod i gael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn yr amserlenni [>] | 100% | 100% | 100% | 85% | G | → | 100% | |
| 11) Nifer o ymweliadau a Chanolfannau Hamdden [>] | 129,096 | 260,023 | 404,982 | 421,943 | M | ↓ | 396,113 | Ychydig y tu ôl i'r targed yn rhannol oherwydd cau Canolfan Hamdden Caergybi ar gyfer atgyweiriadau hanfodol |
| 12) Nifer y cyfranogiadau yng ngweithgareddau Môn Actif [N] [>] | 146,746 | 296,458 | 445,982 | 437,943 | G | ↑ | | |
| 13) Canran o rieni sy'n teimlo eu bod wedi gweld cynnydd yn dilyn cwblhau y rhaglen Positive Parenting Programme (PPP) [N] [>] | | | | | | | | Data ar gael yn Ch4 |

## 5. Addysg

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Targed Ch3 | CAMG Ch3 | Qtr Trend | Q3 2024/25 | Sylwadau Ch3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (pob tymor) [>] | 93.2% | 93.2% | 92.7% | 95% | M | ↓ | 93.1% | Tymor yr Hydref Blwyddyn Academaidd 25/26 |
| 02) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (pob tymor) [>] | 88.2% | 89.7% | 88.4% | 90% | M | ↓ | 88.3% | Tymor yr Hydref Blwyddyn Academaidd 25/26 |
| 03) Canran gadawyr Blwyddyn 11 sydd ddim mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth [NEET] [<] | | | | | | | | Data ar gael yn Ch4 |
| 04) Nifer yr ysgolion mewn Categori Dilynol / Statudol gan Estyn [<] | 1 | 1 | 1 | | | → | 0 | Tymor yr Hydref Blwyddyn Academaidd 25/26 |
| 05) Nifer y plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol yn barhaol [<] | 23 | 2 | 15 | | | ↓ | 13 | Tymor yr Hydref Blwyddyn Academaidd 25/26 |
| 06) Nifer / cyfran yr ysgolion â chynllun adfer ariannol [<] [Q] | 6 | 6 | 6 | 6 | G | → | 6 | |
| 07) Canran yr oedolion sy'n credu, ar y cyfan, fod y gwasanaeth llyfrgell maen nhw'n ei ddefnyddio yn 'dda iawn' neu'n 'dda' [N] [>] | | | | | | | | Data ar gael yn Ch4 |
| 08) Y sgôr cyfartalog gyffredinol allan o ddeg a roddwyd gan ddefnyddwyr 16 oed neu iau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell y maent yn ei ddefnyddio [N] [>] | | | | | | | | Data ar gael yn Ch4 |
| 09) CDU - canran o blant sy'n cyrraedd eu targedau [N] [>] | | | | | | | | Data ar gael yn Ch4 |
| 10) Nifer y camau cynnydd lefel Nofio Môn a gyflawnwyd fel rhan o weithgareddau Môn Actif [N] [>] | 924 | 1610 | 2286 | 2020 | G | ↑ | | |

## 6. Tai

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Targed Ch3 | CAMG Ch3 | Qtr Trend | Q3 2024/25 | Sylwadau Ch3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd i gwblhau atgyweiriadau ymatebol [<] | 15 | 14 | 15 | 18 | G | ↓ | 15 | |
| 02) Canran y tenantiaid a oedd yn fodlon â'r atgyweiriadau ymatebol [>] | 84% | 88% | 87% | 85% | G | ↓ | 87% | Roedd 1237 o'r 1427 arolwg a ddychwelwyd yn fodlon |
| 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) [N] [<] | 89 | 80 | 70 | 51 | C | ↑ | | Gwelliant parhaus gyda gweithredu polisi newydd. Ar gyfer pob uned ers mis Ebrill, roedd yr amser gwag cyfartalog yn 57.8 diwrnod |
| 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – addasiadau (£1k-10k) [<] | 205 | 204 | 201 | 190 | A | ↑ | 190 | Mae 20 cais DFG wedi'u cwblhau, cyfanswm o 4017 diwrnod |
| 05) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - addasiadau (>£10k) [<] | 285 | 285 | 289 | 221 | C | → | 229 | Dim newid o Ch2 – 2 gais DFG â gwerth dros £10k ar gyfer y flwyddyn |
| 06) Nifer y Tai Cyngor a ddatblygwyd o'r newydd a nifer yr hen Dai Cyngor a brynwyd yn ôl i'w gosod fel Tai Cyngor [>] | 4 | 13 | 20 | 22 | M | ↓ | 50 | |
| 07) Cyfanswm dyledion rhent tenantiaid cyfredol fel canran o gyfanswm y rhent y mae modd ei gasglu drwy lety parhaol [<] [Q] | 3.19% | 3.35% | 2.16% | 3.10% | G | ↑ | 2.91% | |
| 08) Nifer yr eiddo gwag preifat a ddaethpwyd yn ôl i ddefnydd drwy'n hymyraethau Tai Gwag [>] | 15 | 32 | 55 | 42 | G | ↑ | 43 | |
| 09) Canran yr aelwydydd a ataliwyd rhag mynd yn ddigartref [>] | 80% | 90% | 95% | 85% | G | ↑ | 95.4% | |
| 10) Nifer y ceisiadau am gymorth gyda digartrefedd (asesiadau adran 62) [<] [Q] | 117 | 292 | 462 | | | ↑ | 452 | |
| 11) Nifer yr Aelwydydd mewn Llety Brys a Dros Dro ar hyn o bryd [<] [Q] | 79 | 84 | 73 | | | ↑ | 100 | |

## 7. Economi

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Targed Ch3 | CAMG Ch3 | Qtr Trend | Q3 2024/25 | Sylwadau Ch3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) % grant economaidd a datblygu / adfywio a dderbyniwyd ac a ddefnyddiwyd [>] | 70% | 112% | 109% | | | | 53% | |
| 02) Gwariant (cyfalaf a refeniw) ar brosiectau isadeiledd, datblygu economaidd ac adfywio (£) [N] [>] | £1.653m | £2.758m | £7.971m | | | | | |
| 03) Canran yr unedau busnes a masnachol osodwyd gan y Cyngor [N] [>] [Q] | 95% | 98% | 98% | 90% | G | → | | |
| 04) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol [>] | 100 | 151 | 161 | 173 | A | ↑ | 191 | Cytunwyd ar 10 contract angori yn Ch3 o'i gymharu ag 1 yn 2024/25 |
| 05) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd [>] | 94% | 95% | 96% | 90% | G | ↑ | 98% | |
| 06) Canran y ceisiadau gorfodi cynllunio a ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod [>] | 87% | 79% | 81% | 80% | G | ↑ | 92% | |
| 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd [>] | 85% | 64% | 65% | 90% | C | ↑ | 85% | Bydd swyddogion yn blaenoriaethu cynnal pob archwiliad bwyd wedi'i raglennu sy'n ddyledus ac sydd wedi mynd yn hwyr yn Chwarter 4 drwy roi llai o flaenoriaeth i ymweliadau cynghori risg isel a gwaith arall nad yw'n statudol am y tro. Mae'r archwiliadau wedi'u dyrannu i swyddogion, ac mae cynnydd yn cael ei fonitro. |
| 08) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd y safonau hylendid bwyd [>] | 99% | 99% | 99% | 95% | G | → | 99% | |
| 09) Nifer yr ymyriadau SPF sy'n cefnogi llwybrau at gyflogaeth [N] [>] | 162 | 320 | 1120 | | | ↑ | | |

## 8. Newid Hinsawdd

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Targed Ch3 | CAMG Ch3 | Qtr Trend | Q3 2024/25 | Sylwadau Ch3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Cyfanswm yr allyriadau carbon sy'n dod o adeiladu'r cygnor (tC02e) [<] | | | | | | | | |
| 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio [>] | 65.95% | 66.36% | 65.54% | 70% | C | ↓ | 66.1% | Ymgynghoriad gyda thrigolion ar ddyfodol casgliadau gwastraff ar yr ynys |
| 03) Canran y gwastraff a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio o adeiladu'r Cyngor [>] | 46% | 44.4% | 44.1% | | | ↓ | 48% | |
| 04) Canran y strydoedd sy'n lân [>] | 100% | 100% | 99.80% | 96% | G | ↓ | 98% | |
| 05) Nifer o ddiwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon [<] | 0.01 | 0.03 | 0.03 | 1 | G | → | 0.09 | |
| 06) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) [<] | | | 1.5% | 1.8% | G | ↑ | 1.8% | |
| 07) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) [<] | | | 1.1% | 1.6% | G | ↑ | 1.6% | |
| 08) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) [<] | | | 5.4% | 7.3% | G | ↑ | 7.3% | |
| 09) Cyfanswm allyriadau carbon fflyd y Cyngor (tC02e inc WTT) [<] | 156.5 | 311.02 | 469.63 | 451 | M | ↓ | 451 | |
| 10) Nifer o Ysgolion yn cymryd rhan mewn cynlluniau Newid Hinsawdd wedi eu achredu [N] [>] | | | | | | | | Data ar gael yn Ch4 |
| 11) Nifer o systemau gwresogi carbon isel wedi eu gosod yn adeiladau y Cyngor [N] [>] | | 11 | 16 | | | | | Cwblhawyd 16 gosodiad gyda 18 arall wedi'u cynllunio |
| 12) Defnydd o bwyntiau gwefru cyhoeddus y Cyngor (kwh) [N] [>] | 76,786 | 149,427 | 189,617 | | | ↓ | | Mae hyn yn gyfwerth â gyrru o South Stack, Caergybi i Bont Borth ac yn ôl 14,700 o weithiau |

## 9. Iechyd Cyngor Cyfan

| | CAMG | Tuedd | Cyllideb | Canlyniad | Amrywiant (%) | Rhagolygon o'r Gwariant | Amrywiant a Ragwellir (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn (Refeniw) [<] | G | ↑ | £192,983,000 | | | £192,179,000 | -0.42% |
| 02) Alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn (Cyfalaf) [>] | | ↓ | £42,074,000 | | | £33,089,000 | -21.36% |
| 03) Incwm yn erbyn Targedau (ac eithrio grantiau) [>] | G | ↓ | -£12,238,709 | -£ 14,427,347 | 17.88% | | |
| 04) Balansau cyffredinol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn [>] | | ↑ | | | | -£17,572,000 | |
| 05) Cost benthyca - % y gwariant refeniw a gyllidwyd ar ei gyfer [<] | G | → | 2.35% | | | 2.35% | |
| 06) Nifer y Gwasanaethau a ragwelir yn gorwario mwy na 5% o'u cyllideb [<] | | → | | | | 2 | |
| 07) % y Dreth Gyngor a gasglwyd (ar gyfer y 3 bl diwethaf) [>] | M | ↑ | | 97.4% | | | |
| 08) % y Mân Ddyledion a gasglwyd (ar gyfer y 3 bl diwethaf) [>] | M | ↑ | | 91.8% | | | |

| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Targed Ch3 | CAMG Ch3 | Tuedd | Sylwadau Ch3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 09) Cyfanswm y cwynion cam 2 a gafodd eu cadarnhau / cadarnhau'n rhannol [<] | 1 | 3 | 13 | 10 | M | ↓ | 2 Gwasanaethau Cymdeithasol, 11 Corfforaethol - Proces CRM newydd mewn lle sydd wedi arwain at gwelliant yn y monitro |
| 10) Cyfanswm % y cwynion cam 2 a gafodd ymateb ysgrifenedig fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) [>] | 100% | 87% | 78% | 80% | M | ↓ | |
| 11) Cyfanswm % y cwynion a gafodd ymateb ysgrifenedig fewn 15 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) [>] | 80% | 80% | 82% | 80% | G | ↑ | |
| 12) % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser [>] | 74% | 76% | 79% | 90% | C | ↑ | Gwelliant bach yn ystod Ch3, ond dal yn fyr o'r targed |
| 13) Cyfran yr ymholiadau a gafodd eu datrys a'u cau gan Cyswllt Môn (heb eu hanfon ymlaen at Wasanaeth) [>] | 32% | 35% | 35% | | | → | |
| 14) Nifer y staff yn yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | 2376 | 2380 | 2380 | | | → | |
| 15) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd [<] | 1.93 | 3.93 | 6.58 | 6.83 | G | ↓ | |
| 16) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul FTE | 0.92 | 1.73 | 2.46 | | | ↑ | |
| 17) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul FTE | 1.01 | 2.2 | 4.02 | | | ↓ | |
| 18) Gweithwyr sydd wedi gadael yr Awdurdod Lleol (%) (Trosiant) [<] | | | | | | | |
| 19) % y swyddi a gafodd eu hysbysebu a'u llenwi ar ôl cael eu hysbysebu unwaith [>] | 78% | 73% | 69% | 70% | M | ↓ | |

# 10. Casgliad ac Argymhellion

10.1 Mae'r perfformiad o 86% o'r dangosyddion perfformiad yn well neu o fewn 5% i'w targedau ar gyfer y chwarter yn gadarnhaol.

10.2 Mae'n dangos bod gwasanaethau'n gweithredu yn unol â gwerthoedd ac egwyddorion cyffredinol y Cyngor.

10.3 **Argymhelliad – bod y Tîm Arweinyddiaeth yn rheoli, ymchwilio a sicrhau gwelliannau i'r dyfodol ar gyfer y DPA a ganlyn:**

10.3.1 Gofal Cymdeithasol a Llesiant – 08) Canran y cyfeiriadau plant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis;

10.3.2 Tai - 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod);

10.3.3 Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (£1k-10k);

10.3.4 Tai – 05) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (>£10k);

10.3.5 Economi – 04) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol

10.3.6 Economi - 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd

10.3.7 Newid Hinsawdd – 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio;

10.3.8 Iechyd Cyngor Cyfan - 12) % y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser.

## 11. Atodiad A – Diwygiadau Sicrhau Ansawdd

11.1 Yn dilyn proses Sicrhau Ansawdd (QA), mae teitlau tri Dangosydd Perfformiad Allweddol (KPI) wedi'u diwygio yn ystod y chwarter hwn er mwyn adlewyrchu'n well sut mae eu perfformiad yn cael ei gyfrifo. Yn flaenorol, roedd y teitlau hyn yn cyfeirio at nifer y "bobl" neu "plant", a oedd yn awgrymu bod unigolion unigryw yn cael eu mesur. Fodd bynnag, gall unigolyn gael ei gyfrif sawl gwaith o fewn y cyfrifiadau hyn (er enghraifft, drwy gyfranogiadau lluosog, ymyriadau neu gynnydd drwy wersi). Er mwyn sicrhau mwy o eglurder, mae'r teitlau wedi'u diweddaru. Dylid nodi nad yw'r data na'r dull cyfrifo wedi newid – dim ond teitlau'r dangosyddion sydd wedi'u diwygio. Mae'r dangosyddion sydd wedi'u diwygio fel a ganlyn:

11.1.1 Gofal Cymdeithasol a Llesiant – 12) Yn flaenorol "Nifer o bobl wedi ymwneud â gweithgareddau Môn Actif" bellach yn "Nifer y cyfranogiadau yng ngweithgareddau Môn Actif".

11.1.2 Addysg – 10) Yn flaenorol "Nifer y plant sydd wedi symud i fyny, neu wedi cwblhau, Rhaglen Nofio Môn fel rhan o weithgareddau Môn Actif" bellach yn " Nifer y camau cynnydd lefel Nofio Môn a gyflawnwyd fel rhan o weithgareddau Môn Actif".

11.1.3 Economi - 09) Yn flaenorol "Nifer o bobl wedi eu cefnogi i baratoi ar gyfer byd gwaith, drwy ymyraethau SPF" bellach yn " Nifer yr ymyriadau SPF sy'n cefnogi llwybrau at gyflogaeth".

11.2 Yn ogystal, yn dilyn y broses Sicrhau Ansawdd, mae canlyniadau Ch2 ar gyfer tri dangosydd wedi'u diwygio yn yr adroddiad hwn er mwyn adlewyrchu'r ffigurau cronnol yn gywir. Mae'r dangosyddion hyn i gyd yn perthyn i'r adran Economi:

11.2.1 Economi 01) % grant economaidd a datblygu / adfywio a dderbyniwyd ac a ddefnyddiwyd

11.2.2 Economi 02) Gwariant (cyfalaf a refeniw) ar brosiectau isadeiledd, datblygu economaidd ac adfywio (£)

11.2.3 Economi 09) Nifer o bobl wedi eu cefnogi i baratoi ar gyfer byd gwaith, drwy ymyraethau SPF (bellach dan y teitl "Nifer yr ymyriadau SPF sy'n cefnogi llwybrau at gyflogaeth")

This page is intentionally left blank

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **18 Fawrth 2026** |
| **Pwnc:** | **Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2026-2056** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Jeff Evans** |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| **Aelod Portffolio** | **Rôl** |
|---|---|
| Cynghorydd Carwyn E Jones | Aelod portffolio ar gyfer Tai |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Ned Michael | Pennaeth Gwasanaethau Tai |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn cael ei ofyn i ystyried Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) er mwyn darparu sicrwydd, her ac oruchwyliaeth cyn iddo symud ymlaen i gael cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Gwaith. Rôl Sgriwtini yw:

- **Profi cadarnrwydd y cynllun** – sicrhau bod y rhagdybiaethau ariannol, y blaenoriaethau buddsoddi a'r cynigion cyflawni yn realistig, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn fforddiadwy.
- **Darparu atebolrwydd democrataidd** – cynnig her annibynnol ar sut mae'r cynllun yn cefnogi tenantiaid, yn cynnal ac yn gwella'r stoc dai, ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol.
- **Gwirio cydymffurfiaeth a rheoli risg** – cadarnhau bod y cynllun yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru, yn rheoli risgiau hirdymor yn briodol, ac yn diogelu hyfywedd y CRT.
- **Cryfhau gwneud penderfyniadau** – galluogi Aelodau i nodi unrhyw faterion y mae angen eu trafod cyn ystyried y cynllun yn ffurfiol gan y Pwyllgor Gwaith.

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☐Er sicrwydd
☒Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐Er gwybodaeth



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

| |
|---|
| Argymhelliad(ion): Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2026–2056 ar gyfer cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith. |

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Mae cymeradwyo Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai (CRT) 2026–2056 yn cefnogi cyflawni Cynllun y Cyngor drwy gyfrannu'n uniongyrchol at nifer o'i amcanion strategol:

- **Creu cartrefi cynaliadwy, diogel a fforddiadwy i bobl leol**
  Mae'r Cynllun Busnes yn nodi buddsoddiad hirdymor i gynnal a gwella stoc dai'r Cyngor, darparu cartrefi cyngor newydd, a sicrhau bod eiddo'n ynni-effeithlon, yn ddiogel ac yn diwallu anghenion trigolion Ynys Môn.
- **Hybu cymunedau gwydn, iach a ffyniannus**
  Drwy fynd i'r afael â materion megis lleithder, llwydni, tlodi tanwydd a gwelliannau o fewn ystadau, mae'r cynllun yn gwella lles trigolion ac yn cefnogi cymunedau sefydlog a bywiog ledled yr Ynys.
- **Cefnogi economi'r Ynys a chyflogaeth leol**
  Mae buddsoddi mewn atgyweirio, cynnal a chadw, ôl-osod ac adeiladu datblygiadau newydd yn cynorthwyo contractwyr lleol, yn creu cyfleoedd hyfforddi a phrentisiaethau, ac yn cefnogi'r gadwyn gyflenwi leol ehangach.
- **Taclo argyfwng y hinsawdd a'r amgylchedd naturiol**
  Mae'r Cynllun Busnes yn cyd-fynd â nodau datgarboneiddio'r Cyngor, gan gynnwys cyflawni'r Rhaglen Ôl-osod Wedi'i Optimeiddio, Llwybrau Ynni Targededig, a chamau gweithredu hirdymor i leihau allyriadau carbon o'r stoc dai.
- **Sicrhau Cyngor sydd yn ariannol gynaliadwy**
  Mae cynllun 30 mlynedd clir, fforddiadwy a chydymffurfiol yn darparu sicrwydd bod y CRT yn parhau'n hyfyw, gan alluogi'r Cyngor i barhau i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol o ran tai a buddsoddi mewn cartrefi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1. Cyfraniad y Cynllun Busnes at flaenoriaethau strategol y Cyngor.
2. Fforddiadwyedd a chynaliadwyedd ariannol y Cynllun Busnes.
3. Cynnal a chyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru 2023.

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

Yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i ni gyflwyno ein cais am ein Lwfans Atgyweiriadau Mawr, ynghyd â Chynllun Busnes 30 Mlynedd y Cyfrif Refeniw Tai (CRT), erbyn 31 Mawrth er mwyn sicrhau ein Lwfans Atgyweiriadau Sylweddol o oddeutu £2.7m ar gyfer 2026-27.

Fel Awdurdod lleol sydd wedi parhau i gadw eu stoc tai ac bellach yn datblygu cartrefi newydd ein hunain mae heriau ariannol sylweddol yn ein wynebu i'r dyfodol os ydym am wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o fod yn adeiladu cartrefi newydd, gwireddu SATC 2023, dad garboneiddio ein stoc tai presennol a chadw lefelau rhenti mor isel a phosib ar gyfer ein tenantiaid a parhau i gael Cynllun Busnes sy'n hyfyw hir dymor.

**1.0 Cefndir**

**1.1** Paratowyd yr Adroddiad a'r Cynllun Busnes hwn ar y cyd â Swyddogion o'r Gwasanaethau Tai a Chyllid a'r Cynllun Busnes yw'r arf cynllunio ariannol pennaf ar gyfer cyflawni a rheoli stoc dai'r Cyngor.

Yn benodol, mae'r Cynllun Busnes yn dangos:-

- sut mae'r Cyngor yn sicrhau fod y stoc gyfan yn cydymffurfio â Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) - er y bydd rhai eiddo yn parhau i gael eu dynodi fel 'methiannau derbyniol';
- y buddsoddiad sydd ei angen i ariannu ein rhaglen datblygu tai cyngor newydd.

**1.2** Trwy ei Gyfrif Refeniw Tai, mae'r cyngor yn rheoli ac yn berchen ar 4095 eiddo a 581 o garejys ledled yr Ynys. Trwy gydol cyfnod y Cynllun Busnes hwn byddwn yn gweld cynnydd o dros 25% yn ein stoc dai, i dros 5000 eiddo, er mwyn cwrdd â'r angen tai lleol cynyddol. Ar hyn o bryd mae gennym dros 950 o bobl ar y rhestr aros Tai Cymdeithasol ac mae hyn yn cynnwys 72 o aelwydydd sydd mewn llety dros dro ar yr Ynys.

**1.3** Mae Cynllun Busnes y CRT (Atodiad 1) yn cyfrannu at yr holl themâu sylfaenol yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae'n cyfrannu'n bennaf at sicrhau bod gan pawb yr hawl i alw rhywle yn gartref, Gofal Cymdeithasol a Lles yn ogystal a Datblygu'r Economi.

**1.4** Mae'r CRT yn parhau i gael ei glustnodi ar gyfer swyddogaethau Landlord y Cyngor sy'n ymwneud â stoc dai'r Cyngor. Oherwydd bod y cyfrif wedi'i glustnodi, nid yw'r Cyngor yn gallu defnyddio arian o'r gronfa gyffredinol i gyllido tai cyngor.

**2.0 Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC)**

2.1 Rydym yn parhau i fod yn llawn ymrwymedig i gyflawni SATC ac yn parhau i weithio tuag at sicrhau bod ein stoc yn cwrdd â meini prawf penodol sy'n ymwneud â iechyd, diogelwch a chyffordd, gan gynnwys gofynion ar gyfer gwresogi, inswleiddio, mân awyru a mynediad at gyfleusterau sylfaenol.

***Dywed Safon Ansawdd Tai Cymru y dylai bob aelwyd gael y cyfle i fyw mewn tai o ansawdd da sydd:***

· Mewn cyflwr da.
· Yn ddiogel.
· Wedi eu gwresogi'n ddigonol, yn effeithlon o ran defnyddio tanwydd ac wedi'u hinsiwleiddio'n dda.
· Yn cynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi modern.
· Wedi eu rheoli'n dda.
· Wedi eu lleoli mewn amgylchedd deniadol a diogel.

· Yn cwrdd â gofynion penodol yr aelwyd i'r graddau y mae hynny'n bosib (e.e. gofynion pobl ag anableddau penodol).

**3.0 Rhaglen Gyfalaf 2026-2027**

3.1 Mae'r Cynllun Busnes yn cynnwys rhaglen gyfalaf gwerth oddeutu £16m. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwaith allanol, gwaith yn gysylltiedig â risg tân, asbestos, addasiadau ar gyfer yr anabl a gwaith effeithlonrwydd ynni. Mae'r gyllideb hefyd yn caniatáu ar gyfer cydymffurfio'n llawn â'r SATC trwy dargedu methiannau derbyniol a safonau amgylcheddol.

3.2 **Gwaith Ynni a Datgarboneiddio**

Rydym yn bwriadu parhau â'r rhaglen hon yn 2026/27 a chlustnodwyd £4m yn y gyllideb i dargedu 550 o osodiadau systemau paneli solar gyda batri i storio trydan a fyddai'n cyfrannu'n gadarnhaol tuag at dargedau effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon a gostwng costau i'n tenantiaid.
Byddwn yn cynnal ymarfer arfarnu a chynllunio buddsoddiad i arfarnu perfformiad ynni, targedau lleihau carbon a chydymffurfio â'r Llwybr Ynni er mwyn paratoi ar gyfer disgwyliadau SATC.

3.3 Mae darpariaeth o £7.3M wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer gwaith trwsio a chynnal a chadw ymatebol, cynnal a chadw cylchol a chynlluniedig .

3.4 Yn ogystal, mae swm o £15.5miliwn, £14m ar gyfer TGY Porthaethwy ac £1.5m wedi'i gynnwys yng nghyllideb 2026-27 ar gyfer datblygu rhaglen adeiladu tai cyngor newydd a phrynu cyn-dai Cyngor ar yr Ynys. Mae'r Cynllun Busnes yn rhagdybio rhaglen ddatblygu o 22 uned ac oddeutu 15 uned ar gyfer gwaith adnewyddu cyn-dai Cyngor yn 2026-27 a thrwy gydol cyfnod y Cynllun Busnes.

**4.0 Model Ariannol a Rhagdybiaethau**

4.1 Mae'n rhaid cael model ariannol 30 mlynedd i gefnogi Cynllun Busnes y CRT sy'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

4.2 Rydym yn derbyn MRA tuag at ymgymryd â mesurau gwaith sy'n berthnasol a chyrraedd a chydymffurfio hefo SATC. Yn ogystal, byddem yn parhau i gymryd mantais o unrhyw gyfle i geisio am arian y Rhaglen Ôl-osod wedi ei Optimeiddio. (Optimised Retrofit Programme)

4.3 **Prif Ragdybiaethau**

- Cynydd Rhent 4.3% 2026/27
- Chwyddiant 2%
- Cyflogau a Costau Canolog 4% yn ystod 2026/27
- Chwyddiant Costau Cynnal a Chadw 3%
- Datblygu 45 Cartref Newydd y flwyddyn drwy gydol cyfnod y Cynllun yn ogystal a Cynllun Tai Gofal Ychwanegol Porthaethwy.
- Cyfraddau Llog Benthyciadau 5.2%

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Nid yw'n debygol y bydd y penderfyniad hwn yn cael effaith negyddol ar unrhyw grwpiau gwarchodedig. Yn hytrach, mae'n debygol o gael effaith positif drwy wella mynediad at dai diogel, addas ac fforddiadwy i'r rhai sy'n cael eu heffeithio'n anghymesur gan amodau tai gwael, megis pobl hŷn, pobl anabl a theuluoedd â phlant ifanc. Bydd pob penderfyniad polisi a buddsoddi sy'n gysylltiedig â'r cynllun yn parhau i gael ei asesu i sicrhau eu bod yn hyrwyddo cydraddoldeb, dileu rhwystrau ac yn cefnogi darpariaeth dai gynhwysol a hygyrch.

7.2. Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

Mae'r penderfyniad hwn yn cefnogi pobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol drwy ddiogelu cyflenwad o dai fforddiadwy, cadw lefelau rhent mor isel â phosibl o fewn fframweithiau cenedlaethol, a buddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni i helpu lleihau tlodi tanwydd. Mae gwell amodau tai yn helpu i leihau straen ariannol, gwella canlyniadau iechyd ac sicrhau mwy o sefydlogrwydd i aelwydydd ar incwm isel. Mae'r dull cynllunio hirdymor hefyd yn helpu atal digartrefedd a phryder tai, sy'n effeithio'n anghymesur ar y rhai dan anfantais.

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Mae'n debygol y bydd y penderfyniad yn cefnogi'r Gymraeg drwy gyfrannu at gymunedau sefydlog a chynaliadwy lle gall y iaith ffynnu. Mae buddsoddi mewn tai lleol yn helpu i gadw preswylwyr – yn enwedig pobl ifanc – ar yr Ynys, gan gynnal cydbwysedd ieithyddol cymunedau. Bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau bod gwasanaethau, cyfathrebu ac ymgysylltu cysylltiedig â'r cynllun ar gael yn gyfartal yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn unol â Safonau'r Gymraeg a'r nod o hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd.

7.4. Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor -

Positif / Niwtral / Negyddol a sut.

Mae disgwyl i Gynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) gael effaith gadarnhaol ar darged Carbon Sero Net y Cyngor. Y prif resymau yw:

**Effaith positif**

• **Buddsoddiad mewn gwelliannau effeithlonrwydd ynni**
Bydd parhau i gyflwyno'r Rhaglen Ôl-Optimeiddio (ORP) a'r Llwybrau Ynni Targedig (TEPs) yn lleihau allyriadau carbon o gartrefi presennol y Cyngor drwy wella inswleiddio, systemau gwresogi, a pherfformiad adeiladu cyffredinol.

• **Dadgarboneiddio'r stoc tai**
Mae'r Cynllun Busnes yn rhoi blaenoriaeth i welliannau i ffabrig yr adeiladau a thechnolegau

carbon isel sy’n cyfrannu’n uniongyrchol at leihau ôl-troed carbon y portffolio tai cymdeithasol.

• **Adeiladu cartrefi newydd sy’n effeithlon o ran ynni**
Bydd cartrefi newydd y Cyngor yn cael eu hadeiladu i safonau modern, carbon isel neu garbon sero, gan wella perfformiad hirdymor a chefnogi amcanion dadgarboneiddio ehangach y Cyngor.

• **Lleihau dibyniaeth ar danwydd ffosil**
Mae disodli systemau gwresogi hŷn neu aneffeithlon â dewisiadau carbon isel yn helpu i drawsnewid stoc dai’r Cyngor tuag at ddefnydd ynni glanach.

## 8. Goblygiadau ariannol

Cyllideb y CRT wedi ei glust nodi ar wahân i Gyllideb y Cyngor.

## 9. Atodiadau

Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2026–2056

## 10. Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

Darren Gerrard – Rheolwr Busnes Tai

# Cynllun Busnes 2026-2056

## Y Cyfrif Refeniw Tai

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn y Gymraeg

This document is also available in Welsh

www.anglesey.gov.wales

# RHAGAIR





**Ned Michael – Pennaeth Gwasanaeth Tai**

**Cynghorydd Carwyn E Jones – Deilydd Portffolio Tai**

Mae'n bleser gennym gyflwyno'r Cynllun Busnes Refeniw Tai, sy'n nodi ein strategaeth hirdymor ar gyfer rheoli, cynnal a buddsoddi yn ein stoc dai dros y 30 mlynedd nesaf. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau bod y Gwasanaeth Tai yn parhau'n gynaliadwy yn ariannol wrth barhau i ddarparu cartrefi diogel, o ansawdd uchel ac am bris fforddiadwy i'n tenantiaid, yn awr ac yn y dyfodol, a chyflawni'r holl ofynion statudol, rheoleiddiol a pholisi.

Mae'r cynllun busnes yn cadarnhau bod yr CRT yn bodlon ac yn gallu ariannu gwasanaethau hanfodol, atgyweiriadau a chynnal a chadw parhaus, buddsoddiad cyfalaf mawr ac ymrwymiadau dyled. Mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad i gynnal tai i'r safonau gofynnol, gan gwrdd â dyletswyddau diogelwch adeilad a chydymffurfiaeth ac yn hybu blaenoriaethau ehangach megis datgarboneiddio a datblygu tai newydd.

Serch hynny, Fel Awdurdod lleol sydd wedi parhau i gadw eu stoc tai ac bellach yn datblygu cartrefi newydd ein hunain mae heriau ariannol sylweddol yn ein wynebu i'r dyfodol os ydym am wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o fod yn adeiladu cartrefi newydd, gwireddu SATC 2023, dad garboneiddio ein stoc tai presennol a chadw lefelau rhenti mor isel a phosib ar gyfer ein tenantiaid a parhau i gael Cynllun Busnes sy'n hyfyw hir dymor.

**Gweledigaeth - "Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref"**

Mae'r strategaeth tai yn anelu at sicrhau bod gan bobl ar draws yr Ynys dai diogel, fforddiadwy ac addas ac y cânt eu cefnogi i gyfrannu ac ffynnu o fewn eu cymunedau.

# TROSOLWG O'R GWASANAETH TAI

Mae'r Gwasanaeth Tai/Tai Môn yn cyflogi 154 aelod o staff ac mae ganddynt gyllideb refeniw o £24.5M a chyllideb gyfalaf o £31.572M. Mae'r cyllid ar gyfer yr CRT yn bennaf o Grant Tai Cymdeithasol, Incwm Taliadau Rhent a Gwasanaeth, Lwfans Atgyweiriadau Mawr, a grantiau eraill gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Gwasanaeth Tai yn cynnwys y timau canlynol :-

Tîm Incwm
Tîm Atgyweirio a Chynnal a Chadw

Tîm Cyfalaf a Chynllunio

Tîm Cydymffurfio
Tîm Cyfranogiad Tenantiaid
Tîm Datblygu Tai
Tîm Opsiynau Tai
Tîm Cynhwysiant Ariannol
Tîm Rheoli Ystadau
Tîm Cefnogaeth Busnes

Ein gweledigaeth gwasanaeth yw "Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref“

# Cynllun y Cyngor 2023-2028

